

Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Mark Isherwood AS
Ceidwadwyr Cymreig



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Mark Reckless AS
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mick Antoniw AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Nick Ramsay AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Casgliad ac Argymhellion.....	7
1. Cyflwyniad.....	12
2. Trosolwg.....	18
3. Cyllido, ysgogiadau treth a'r sylfaen drethu	31
4. Ymateb i COVID-19.....	40
5. Trawsnewid.....	56
6. Yr Economi, sgiliau ac adfywio.....	60
7. Newid hinsawdd a datgarboneiddio	73
8. Deall anghydraddoldeb a chynnydd.....	81
9. Brexit a'r cyfnod pontio â'r Undeb Ewropeaidd	94
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	101
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	103

Rhagair y Cadeirydd

Dyma adroddiad olaf y Bumed Senedd ar y Gyllideb Ddrafft, ac am y drydedd flwyddyn yn olynol, lluniwyd a chraffwyd ar y Gyllideb Ddrafft o dan amgylchiadau eithriadol. Eleni mae'r pandemig wedi arwain at oedi o ran digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig, sydd wedi arwain at oedi cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Yn ei dro mae hyn wedi lleihau ein hamser i graffu, sy'n peri pryder arbennig o ystyried y bydd COVID-19 yn cael effaith ar wariant cyhoeddus am flynyddoedd i ddod.

Fersiwn ddrafft yn sicr yw'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae diffyg ffigurau cyllido at y dyfodol, gyda setliad cyllid refeniw am flwyddyn yn unig, wedi gwneud y gwaith o osod y gyllideb hyd yn oed yn fwy heriol. Bwriedir gosod Cyllideb Llywodraeth y DU ar 3 Mawrth 2021, sy'n golygu na fydd Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried ei chynnwys, felly gallwn fod yn sicr y bydd newidiadau sylweddol i ddyraniadau yn ystod y flwyddyn – mater i'r Llywodraeth nesaf a'r Pwyllgor Cyllid nesaf.

Mae cryn dipyn o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyllid a ddyrannwyd i ymateb i'r heriau sy'n deillio o'r pandemig COVID-19. Er ei fod yn croesawu'r cynnydd ar gyfer iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn pryderu am effeithiau hirdymor y pandemig ar ofal nad yw'n ymwneud â COVID, fel y pwysau parhaus ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gweithwyr y gofal iechyd i gadw pellter cymdeithasol a'r nifer is o staff sydd ar wardiau – mae gennym bryderon ynghylch capasiti ac iechyd meddwl y gweithlu.

Mae awdurdodau lleol hefyd o dan bwysau cynyddol a bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n destun pryder na fydd y cyllid cynyddol yn y setliad llywodraeth leol yn cwmpasu'r holl bwysau costau, fel costau gofal cymdeithasol, gofal plant ac addysg.

Mae'r aflonyddwch economaidd a achoswyd yn sgil y pandemig wedi bod yn ddinistriol. O ystyried nad ydym yn gwybod beth yw llwybr y pandemig o hyd, a chyda llawer o fusnesau yn dal yn methu â masnachu ac ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd hyder busnes yn dychwelyd, mae'n synhwyrol caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallem weld mwy o uchelgais gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun ailadeiladu, a gwell pecynnau cymorth at gyfer busnesau.

Mae sawl her wedi dod yn sgil COVID-19 ac mae'r effaith ariannol ar iechyd a'r economi wedi bod yn sylweddol. Er ei bod hi'n debygol y bydd 2021-22 yn dal i

gael ei reoli gan yr ymateb i'r pandemig, ac yn amlwg bydd llawer o waith i'w wneud gan y Llywodraeth nesaf a'r Pwyllgor Cyllid nesaf, rydym yn obeithiol y bydd modd symud i ganolbwyntio ar adferiad yn ystod y flwyddyn.

Llyr Gruffydd, Cadeirydd

Casgliad ac Argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hon yn gyllideb ddrafft o ddifrif o'i chymharu â'r arfer, gyda chyllid sylweddol heb ei ddyrannu eleni. Er bod hynny'n ddealladwy, nid yw hyn yn ffafriol o ran craffu ar y gyllideb yn effeithiol.

.....Tudalen 29

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu goblygiadau Cyllideb y Deyrnas Unedig, a'i hymateb iddi, cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fyfrio ar newidiadau posibl i Gyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael eu cynnal erbyn dyddiad penodol i sicrhau bod gan weinyddiaethau datganoledig ddigon o amser i bennu cyllideb a gwneud gwaith craffu ystyrlon.....Tudalen 29

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i setliadau cyllido aml-flwyddyn mewn pryd ar gyfer proses gyllideb y flwyddyn nesaf.....Tudalen 29

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymadau gwariant mewn perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol mae'n ei dderbyn, er mwyn llywio'r gwaith craffu yn y flwyddyn ariannol a ddaw.....Tudalen 29

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun ar fyrder ar gyfer cyflymu cyllid, os na fydd cytundeb ar gynyddu cyfyngiadau ar ddwyn cyllid ymlaen yng nghronfa wrth gefn Cymru, er mwyn atal colli unrhyw arian i Gymru.....Tudalen 39

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid teg mewn perthynas â phenderfyniadau diweddar sy'n achosi ansicrwydd neu'n effeithio ar gyllid sydd ar gael i Gymru, fel HS2, y gronfa ffyniant gyffredin, cyllid o golofn i golofn, tomennydd glo etifeddol, difrod llifogydd a bod Gweinidog Cyllid y presennol a'r dyfodol yn diweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd.....Tudalen 39

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, lle mae materion parhaus yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, bod angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chyllid i sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn i gyllid gyrraedd lle mae ei angen ar frys. Tudalen 39

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y mesurau sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw gyllid iechyd ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei ddyrannu'n effeithlon, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Tudalen 47

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut bydd y cyllid ychwanegol o £385 miliwn ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG yn cael ei ddefnyddio. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad i ddangos faint sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y dyfarniad cyflog i staff a gwasanaethau eraill, fel yr arian a fwriadwyd i ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol - er enghraifft, i fynd i'r afael â chynnydd mewn amseroedd aros oherwydd y pandemig. Tudalen 47

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r dyraniadau cyllideb drafft yn mynd i'r afael â'r materion cyfredol mae'r GIG yn eu hwynebu o ran nifer a gallu staff, yn ogystal â'r rhai mae'n debygol o'u profi o ystyried effaith barhaus y pandemig ar ei weithlu. Tudalen 47

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer mwy o fuddsoddi mewn staff a hyfforddiant i gynorthwyo gweithwyr y GIG. Tudalen 47

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y rhaglen frechu, gan wahaniaethu rhwng y costau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt a'r rhai y darperir ar eu cyfer yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Tudalen 47

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut bydd y dyraniadau ar gyfer iechyd meddwl yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag argaeledd cymorth. Tudalen 48

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth fynd i'r afael â'r lefelau uwch o afiechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddsoddi'n digwydd mewn mesurau ataliol sy'n ystyried penderfynyddion ehangach iechyd meddwl, fel sgiliau a chyflogadwyedd, addysg, tai, mynediad at fannau gwyrdd a gweithgarwch corfforol. Tudalen 48

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol ac addysg yn cynorthwyo'r ffyrdd presennol o ddysgu ac yn darparu digon o adnoddau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y pandemig ar addysg, gan sicrhau nad yw pobl ifanc ar ei hôl hi.
.....Tudalen 55

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fwriadwyd i'r cyllid ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol a pha gyllid ychwanegol a all fod ar gael y tu allan i'r setliad.....Tudalen 55

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai cyllid gwaelodol ar gyfer llywodraeth leol yn y Gyllideb Derfynol yn addas.
.....Tudalen 55

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o ystyriaeth y Gweinidog ynghylch dyraniadau pellach yn y Gyllideb Derfynol, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid pontio ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2021-22 fel bod darparwyr yn gallu talu'r costau ychwanegol parhaus a ddaw yn sgil darparu eu gwasanaethau yn ystod y pandemig.....Tudalen 55

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y dyfarniad cyflog ar awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys yr effaith debygol ar eu sefyllfa ariannol a darparu gwasanaethau.....Tudalen 55

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y gwaith pellach sy'n cael ei wneud ar effaith y pandemig ar addysg pan fydd ar gael.....Tudalen 55

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cynllun ailadeiladu Llywodraeth Cymru yn fwy uchelgeisiol o ran polisi a dyraniadau a'i fod yn cael sylw mwy sylweddol yn y Gyllideb Derfynol, a'r Cyllidebau Atodol dilynol.
.....Tudalen 71

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'r rhaglenni adfywio presennol yn dal i gynrychioli'r gwerth gorau, ac yn ystyried yr angen i ganolbwyntio mwy ar gynorthwyo twf a buddsoddiad mewn sgiliau a chyflogadwyedd, yn enwedig o ran annog economi werdd gynaliadwy.
.....Tudalen 71

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i symleiddio'r broses ar gyfer cyrchu pecynnau cymorth busnes ac yn cynnig help a chyfeirio gwell ar gyfer busnesau llai, gan gynnwys ymagwedd "dim dewis anghywir" ar gyfer ymgeiswyr. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried adolygu'r dulliau cyfathrebu ar gyfer y cynlluniau hyn.Tudalen 71

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r pandemig wedi newid, neu wedi cadarnhau, ei blaenoriaethau o ran cysylltedd digidol. Dylid tynnu sylw at newidiadau yn hyn o beth yn y Gyllideb Derfynol.Tudalen 71

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar ganol trefi yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r pandemig (er enghraifft, gwneud y mwyaf o weithio gartref).Tudalen 72

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae wedi newid ei hagwedd tuag at wariant ar yr argyfwng hinsawdd yng ngoleuni'r pandemig a sut mae'n bwriadu cynnal yr hyblygrwydd i addasu i newidiadau ymddygiad wrth gyflawni ei hamcan o adeiladu 'dyfodol mwy gwyrdd'.Tudalen 79

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu asesiad cynhwysfawr o effaith carbon ei phenderfyniadau gwariant ac yn ystyried sut gall oresgyn y cyfyngiadau a nodwyd.Tudalen 79

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r modd o gyfathrebu ynghylch cynlluniau cymorth ariannol ac yn adolygu'r prosesau ymgeisio i hwyluso mynediad at gymorth, yn enwedig i ymgeiswyr bregus, gan ystyried gweithredu dull 'dim dewis anghywir' ar gyfer ymgeiswyr.Tudalen 92

Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall wella'r berthynas rhwng y dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru a'r agenda atal.Tudalen 93

Argymhelliad 30. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol yn cael eu cryfhau i egluro sut mae achosion tlodi ac effeithiau amrywiol ar wahanol grwpiau ac anghenion yn dylanwadu ar ddyraniadau gwariant Llywodraeth Cymru.Tudalen 93

Argymhelliad 31. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn cymryd agwedd fwy sensitif i rywedd tuag at ei chyllidebau yn y dyfodol ac yn dangos sut mae penderfyniadau gwariant a pholisi yn cael eu llywio gan yr effaith ar rywedd a grwpiau eraill, yn enwedig o gofio'r dystiolaeth y bydd effaith economaidd y pandemig yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau.Tudalen 93

Argymhelliad 32. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid yn darparu diweddariad byr ar effaith rhagolygon diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a fydd yn cael eu cyhoeddi gyda Chyllideb y Deyrnas Unedig yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 9 Mawrth.Tudalen 100

Argymhelliad 33. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar gyllid sy'n ymwneud â throsglwyddo o golofn i golofn, ac yn cynnal asesiad effaith ar yr effeithiau y bydd gostyngiad yn y cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth yn ei chael ar ffermio a'r economi wledig yn ehangach.
.....Tudalen 100

Argymhelliad 34. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, ac mae'n argymhell bod diweddariad yn cael ei ddarparu ar sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol a pha rôl fydd gan Lywodraeth Cymru yn y broses.....Tudalen 100

1. Cyflwyniad

Y Pwyllgor

1. Pwyllgor trawsbleidiol yn Senedd Cymru (y Senedd) yw'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor), sy'n cynnwys Aelodau o blith y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.
2. Yn unol â Rheol Sefydlog 19, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried a chyflwyno adroddiad ar gynigion a osodir gerbron y Senedd gan Weinidogion Cymru sy'n cynnwys cynigion cyllidol neu gynigion i ddefnyddio adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chyllido neu'n effeithio ar gyllido, neu'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu wariant sy'n effeithio arni.¹

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

3. Ar 21 Mehefin 2017, cytunodd y Senedd ar broses newydd ar gyfer y gyllideb. Hon yw'r bedwaredd gyllideb ddrafft ar gyfer craffu o dan y broses newydd.
4. Mae'r broses newydd ar gyfer y gyllideb yn pennu y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth mewn dau gam:
 - Cynigion amlinellol sy'n dangos cynlluniau gwariant a chyllido strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru; a
 - Chyllideb ddrafft fanwl, lle bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion cyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu lefel gyfatebol, ynghyd â naratif ategol priodol.
5. Yn sgil Deddf Cymru 2014,² cafodd pwerau cyllidol ychwanegol eu datganoli i'r Senedd. Ym mis Ebrill 2018, daeth dwy dreth benodol i Gymru i rym: y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Ym mis Ebrill 2019, daeth Cyfraddau Treth Incwm Cymru i rym.
6. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Mae'r adroddiad dilynol yn ystyried y Dreth

¹ Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

² Deddf Cymru 2014

Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru yn fanwl.

7. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau cyffredinol strategol a'r blaenoriaethau wrth wraidd y dyraniadau yng nghynigion amlinellol y Gyllideb ddrafft, ynghyd â'r cynlluniau trethiant a benthyca. Bydd yn gwneud hynny ar sail cyllid cyhoeddus a'r economi'n gyffredinol.

Amseriad Cyllideb Llywodraeth Cymru a Chyllideb y Deyrnas Unedig

8. Mae'r broses newydd ar gyfer y gyllideb wedi bod ar waith ar gyfer pedwar cylch o graffu ar Gyllidebau Drafft. Mae'n bwysig nodi bod amgylchiadau 'eithriadol' wedi effeithio ar y Gyllidebau Drafft ar gyfer 2021-22, 2020-21 a 2019-20 - yn bennaf, Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig, Brexit ac oedi o ran digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi arwain at oedi o ran dyddiadau arfaethedig cyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ac wedi lleihau'r amser ar gyfer craffu.

9. Ym mis Medi 2020 canslodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Gyllideb yr hydref a chyhoeddi Pecyn Economi'r Gaeaf i gynorthwyo economi'r Deyrnas Unedig drwy'r ail don o COVID-19, a disgwyllir Cyllideb y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2021.

10. Ar 29 Mehefin 2020, anfonwyd llythyr a ysgrifennwyd ar ran y Pwyllgor, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn tynnu sylw at bwysigrwydd amseru cyllideb y Deyrnas Unedig.

"...byddem yn croesawu cael arwydd mor gynnar â phosibl ynglŷn ag amseriad Cyllideb y DU a sicrwydd y byddwch yn ystyried effaith yr amseriad hwnnw ar wahanol brosesau cyllideb y gwledydd datganoledig."

11. Ar 2 Gorffennaf 2020, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) at y Pwyllgor:

"Nid ydym yn gwybod ein setliad cyllideb 2021-22 hyd yn hyn a hyd nes y cawn yr wybodaeth hon ni allwn ddarparu sicrwydd ar ein hamserlen ar gyfer ein cyllideb 2021-22 ein hunain. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael inni nes bydd Llywodraeth y DU yn gorffen ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant o'i gymharu â Chyllideb yr Hydref... [mae'r] ansicrwydd parhaus sy'n deillio o effaith y pandemig COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio yn dilyn Brexit yn golygu yn anochel y byddai'r

broses gyllidebol eleni yn fwy heriol i lywodraethau'r pedair gwlad ledled y DU."

12. Yn y llythyr hwn, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 8 Rhagfyr 2020, a'r Gyllideb Derfynol ar 2 Mawrth 2021, ond awgrymodd fod hyn yn amodol ar amseriad Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

13. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor eto ar 29 Hydref 2020, gan nodi ei bwriad i ohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft tan 21 Rhagfyr 2020. Dywedodd y Gweinidog:

"Ddoe, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yr Adolygiad o Wariant yn cael ei gynnal ar 25 Tachwedd. Daw'r cyhoeddiad hwn ddyddiau ar ôl i Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod wedi penderfynu cynnal Adolygiad o Wariant blwyddyn yn hytrach na'r adolygiad aml-flwyddyn hirddisgwyliedig. Nid yw'r dull tameidiog hwn o ryddhau gwybodaeth o gymorth ac mae'n gwneud y dasg o gynllunio ar gyfer ein cyllideb a'i rheoli yn un anodd iawn."

Ymgynghori

14. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid oedd modd i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan randdeiliaid am eu barn ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru, oherwydd y cyfyngiadau ar gymdeithasu ledled y wlad.

15. Yn lle hynny, cynhaliodd y Pwyllgor weithgareddau ymgysylltu ar-lein eleni i geisio safbwyntiau ar yr hyn mae rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r farn y dylent fod yn flaenoriaethau gwariant i Lywodraeth Cymru. Casglodd yr ymgyrch ddigidol hon wybodaeth o gyfres o arolygon Twitter a gynhaliwyd ar borthiant Twitter y Pwyllgor, a thrwy arolwg byr.

16. Yn ogystal, cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyn y gyllideb, gan wahodd sefydliadau ac unigolion i roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eu disgwyliadau o'r Gyllideb Ddrafft sydd ar ddod. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad yn benodol ar y meysydd a ganlyn:

- Effaith cyllideb 2020-21 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid diweddar sy'n gysylltiedig â COVID-19;
- Sut dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 newid i ymateb i COVID-19;

- Pa mor barod yn ariannol yw sefydliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, a sut gall y gyllideb roi mwy o sicrwydd wrth gynllunio a rheoli cyllidebau o ystyried yr anwadalrwydd a'r ansicrwydd parhaus;
- A ddylid newid y gyllideb a'r prosesau craffu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd Gweinidogol digonol;
- A yw'r Fframwaith Cyllidol yn adlewyrchu effaith yr argyfwng iechyd cyhoeddus yng Nghymru yn ddigonol o'i gymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Y prif feysydd craffu ar y gyllideb

17. Cytunodd y Pwyllgor i barhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, sy'n ymwneud â'r pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd – A yw'r darlun cyfan o ran cyfanswm refeniw a gwariant yn gytbwys?
- Blaenoriaethu – A yw'r dyraniadau wedi eu rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?
- Gwerth am arian - A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- Proses y gyllideb – A yw'n effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

18. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor nifer o feysydd y dylai Pwyllgorau sy'n ystyried cynlluniau gwariant portffolio unigol ganolbwyntio arnynt:

- Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- Polisiâu Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- Dull gweithredu o ran gwario ataliol a sut y caiff hwn ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau;

- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- Cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben;
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth ategu 'ailgodi'n gryfach' (hynny yw, cynorthwyo economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Dadl yn y Cyfarfod Llawn – Blaenoriaethau'r gyllideb yn 2021-22

19. Mae'r Pwyllgor, yn y gorffennol, wedi mynegi ei bryder nad yw'r Senedd yn cael cyfle ffurfiol i drafod blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a dylanwadu arnynt o bosibl, cyn i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi.

20. Y cylch cyllideb blaenorol oedd y cyntaf lle cafodd y Pwyllgor gyfle i gynnal dadl ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Canfu'r Pwyllgor fod y cyfle hwn yn hynod werthfawr, ac roedd yn awyddus i wneud yr un peth eto wrth ragweld Cyllideb Ddrafft 2021-22.

21. Ar 28 Mai 2020, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog, ynghylch dadl ar flaenoriaethau. Dywedodd y Pwyllgor:

“Bydd Covid-19 yn cael effaith ar wariant cyhoeddus am flynyddoedd i ddod a chredwn fod cynnal y ddadl hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Senedd yn amlinellu'r hyn y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei gwariant arno dros y flwyddyn ariannol nesaf.”³

22. Atebodd y Pwyllgor Busnes y Pwyllgor gan ddweud.

“Cafwyd cefnogaeth unfrydol i gynnal y math hwn o ddadl yn flynyddol, a chan fod Cyllideb ddrafft eleni'n cael ei heffeithio'n benodol gan

³ Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid i'r Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 28 Mai 2020

Covid-19, cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddadl yn ystod yr wythnos olaf cyn toriad yr haf."⁴

23. Cynhaliwyd dadl ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar **15 Gorffennaf 2020**.

Barn y Pwyllgor

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r anawsterau wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft hon oherwydd COVID-19, yr ansicrwydd a achosir gan amseriad cyhoeddiadau gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig a threfniadau pontio ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

25. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi, oherwydd Adolygiad Gwariant hwyr y Deyrnas Unedig ar 25 Tachwedd 2020, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu cyhoeddi ei Chyllideb ddrafft tan 21 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae'r amserlenni byrrach wedi effeithio ar allu'r Pwyllgor i geisio barn ar gynigion Llywodraeth Cymru a chraffu arnynt.

26. Mae'r Pwyllgor yn pryderu mai hon yw'r drydedd flwyddyn eithriadol yn olynol o ran gosod cyllidebau, lle mae'r diffyg ffigurau cyllid ymlaen wedi golygu mai dim ond gwerth blwyddyn o gyllid refeniw mae Llywodraeth Cymru wedi ei gael ac nad yw wedi gallu bwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor i rhoi setliadau cyllido aml-flwyddyn i sectorau.

27. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyhoeddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig bod disgwyl Cyllideb y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth 2021. Mae'n anffodus bod amseriad Cyllideb y Deyrnas Unedig yn golygu na fydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn gallu adlewyrchu cynnwys Cyllideb y Deyrnas Unedig.

28. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cefnogaeth unfrydol y Pwyllgor Busnes i gynnal dadl lawn yn flynyddol ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu goblygiadau Cyllideb y Deyrnas Unedig, a'i hymateb iddi, cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fyfyrio ar newidiadau posibl i Gyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22.

⁴ Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Cyllid, 4 Mehefin 2020

2. Trosolwg

29. Gosododd Llywodraeth Cymru y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020. Mae'n amlinellu newidiadau i drethi datganoledig yng Nghymru ynghyd â'r cyllid y bydd pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn ei gael. Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft:

- Naratif, gan gynnwys asesiad effaith strategol.
- Cynllun gwella'r gyllideb, yn adeiladu ar y cynllun cyntaf a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb ddrafft y llynedd, gyda'r bwriad o wella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus.
- Tablau cyllideb manwl ac atodiad i olrhain newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant a'u cymharu â'r gyllideb derfynol ddiwethaf.
- Adroddiad y Prif Economegydd ar gyfer 2020, sy'n darparu crynodeb o ddatblygiadau economaidd a rhagolygon economaidd a chyllidol.
- Dadansoddiad dosbarthiadol, gyda'r bwriad o fesur effaith gwariant cyhoeddus datganoledig ar bobl yng Nghymru yn ôl incwm.
- Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei Golwg ar drethi Cymru - Rhagfyr 2020, sef rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, yn ogystal â dogfennau eraill.

30. Cyhoeddir y Gyllideb Ddrafft yng nghyd-destun cryn ansicrwydd ynghylch y pandemig COVID-19 ac unrhyw arian y gall Llywodraeth Cymru ei dderbyn o ganlyniad i ddyraniadau gwariant ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch cysylltiadau masnachu ar ôl Brexit.

Cyllid yn 2020-21

31. O ganlyniad i COVID-19, mae cyllid drwy gydol 2020-21 wedi bod yn destun amryw o newidiadau yn ystod y flwyddyn. Bydd cyllideb atodol ychwanegol ar gyfer 2020-21 i reoli'r cyllid ychwanegol, a'r newidiadau cysylltiedig i ddyraniadau.

32. Dywedodd y Gweinidog fod cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu oddeutu £800 miliwn y flwyddyn ariannol hon a bod dyraniadau sylweddol ar y gweill yn y gyllideb atodol nesaf. Fodd bynnag, gyda hynt y pandemig yn anhysbys mae'n

anodd rhagweld lefel y cronfeydd wrth gefn a fydd yn aros ar ddiwedd y flwyddyn.⁵

33. Bydd y broses Amcangyfrifon Atodol yn San Steffan yn cadarnhau'r sefyllfa gyllido derfynol i Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Mae'n debygol y bydd llawer o gyllid canlyniadol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

34. Dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniadau cyllidol dramatig yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gyllid canlyniadol yn y flwyddyn sy'n fwy na'r trefniadau dwyn ymlaen cyfyngedig ar gyfer Cymru. Yn y blynyddoedd i ddod, hoffai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol weld dychwelyd at gynllunio cyllidebau tymor canolig, gyda setliadau aml-flwyddyn yn hytrach nag am flwyddyn yn unig.⁶

Prif ffigurau o gyllideb ddrafft 2021-22

35. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau y bydd £766 miliwn yn cael ei ddarparu drwy gyllid canlyniadol Barnett mewn perthynas â COVID-19 yn 2021-22. Mae hyn yn llai na'r £5 biliwn mewn cyllid canlyniadol mae Cymru wedi ei dderbyn hyd yn hyn yn ystod 2020-21. Yn dibynnu ar sut mae'r pandemig yn datblygu, mae'n bosibl y bydd cyllid canlyniadol ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru erbyn i'r Gyllideb Derfynol fod yn barod i'w chyhoeddi, neu yn ystod 2021-22.

36. O'i chymharu â Chyllideb Derfynol 2020-21, mae'r Gyllideb Ddrafft yn ymrwmo i ddarparu £420 miliwn yn ychwanegol ar gyfer ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol a £176 miliwn i gynorthwyo â phwysau ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Gyllideb hefyd yn cynnwys y dyraniadau a ganlyn:

- £40 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Cymorth Tai;
- £20 miliwn i gefnogi teithio llesol;
- Dros £20 miliwn i fynd i'r afael â phwysau demograffig o ran addysg chweched dosbarth ac addysg bellach;
- £8.3 miliwn i gynorthwyo'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm;
- £9.4 miliwn i gynorthwyo gwasanaethau ieuchyd meddwl mewn cymunedau ac ysgolion;

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 18

⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 14

- £274.7 miliwn ar gyfer buddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd a metros;
- £36.8 miliwn mewn cyllid ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol, gan fynd â chyfanswm y gyllideb i £200 miliwn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod;
- £5 miliwn i ddatblygu'r Goedwig Genedlaethol ac i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth.

37. Cafodd y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2021-22 ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2020, gyda £4.65 biliwn o gyllid i awdurdodau lleol mewn cyllid refeniw craidd a chronfeydd ardrethi annomestig.

38. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd dyraniadau'n cael eu gwneud rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol, yn dibynnu ar gwrs y pandemig:

“What I do intend to do at the draft budget is make a number of allocations in relation to COVID, but then consider how the pandemic progresses between draft and final and make some further allocations there, with the potential, of course, to hold some back for a future Government to allocate in-year.”⁷

Dyraniadau Adrannol

39. Ar wahân i'r ansicrwydd digynsail a achosir gan y pandemig, mae nifer o ffactorau sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud y cymariaethau arferol a wneir adeg y gyllideb.

40. Fel arfer, gwneir cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn rhwng y Gyllideb Atodol ddiweddaraf a'r Gyllideb Ddrafft. Ers Cyllideb Derfynol 2020-21, bu oddeutu £5 biliwn o gyllid ychwanegol, gan ei gwneud yn anodd cymharu blynyddoedd.

41. Mae'r ffeithlun isod yn amlinellu'r dyraniadau yn ôl portffolio yn y Gyllideb Ddrafft. Yn nodweddiadol, byddai'r Gyllideb Ddrafft yn cael ei chymharu â'r Gyllideb Atodol ddiweddaraf. Yn yr achos hwn, byddai hyn yn golygu cymhariaeth ag Ail Gyllideb Atodol 2020-21 (Hydref 2020). Fodd bynnag, er mwyn darparu llinell sylfaen fwy perthnasol wrth gymharu gwariant o flwyddyn i flwyddyn, gwneir cymariaethau gyda'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2020-21.

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Rhagfyr 2020, paragraff 8

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Newidiadau rhwng y Terfynau Gwariant Adrannol o ran **Refeniw*** yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 a'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2020-21 (wedi'i hailddatgan fel cymhariaeth, gan gynnwys y £231 miliwn ar gyfer taliadau uniongyrchol y cymhorthdal i ffermydd ond heb gynnwys y dyraniadau dilynol ar gyfer COVID yn 2020-21 a dyraniadau eraill)



*Mae dyraniadau refeniw yn cynnwys costau o ddydd i ddydd fel cyflogau staff a phrynu nwyddau traul a gwasanaethau.

Refeniw fesul portffolio		Newid o flwyddyn i flwyddyn
	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £8,682m	+5.2% +£425m
	Tai a Llywodraeth Leol** £4,190m	+6.8% +£268m
	Addysg £1,625m	+3.7% +£57m
	Yr Economi a Thrafnidiaeth £773m	+4.9% +£36m
	Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig*** £529m	+6.6% +£33m
	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £378m	+3.9% +£14m
	Iechyd meddwl, Llesiant a'r Gymraeg £274m	+4.0% +£11m

** Heb gynnwys £1.1bn o incwm o ardrethi annomestig.

*** At ddibenion gwneud cymhariaeth gyfatebol o flwyddyn i flwyddyn, mae swm o £231.145m wedi'i gynnwys ar gyfer taliadau uniongyrchol y cymhorthdal i ffermydd, sy'n adlewyrchu addasiad a wnaed yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21. Mae ffigurau wedi'u talgrynnu. Dylech gyfeirio at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 i weld yr union ffigurau.



42. Mae cyllideb refeniw craidd ddyranedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 oddeutu £16.5 biliwn, a dyrennir y rhan fwyaf ohoni i wariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cyllid ychwanegol sylweddol ar draws yr holl bortffolios, gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol yn nhermau ariannol ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (£425 miliwn) a Thai a Llywodraeth Leol (£268 miliwn). Mae'r Gyllideb ddrafft hefyd yn darparu ar gyfer pecyn cychwynnol o £77 miliwn mewn cyllid COVID-19, i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu prydau ysgol am ddim ac i sicrhau y gall y rhaglen olrhain cysylltiadau barhau i weithredu.

43. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Dadansoddi Cyllid Cymru sut roedd Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn cymharu â blwyddyn 'normal' (hynny yw, cyn-bandemig). Awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru bod y twf yn y gyllideb graidd yn parhau'n fras â'r duedd a welwyd dros y ddwy flynedd ddiweddaraf yng nghyllideb Cymru, ac 'yn sicr yn wahanol i'r cyllidebau cyni' a welwyd hyd at 2018. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod y gyllideb yn 'llawer mwy o ddrafft nag arfer'⁸ oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y pandemig.

44. Amcangyfrifodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod yr adnodd cyllidol heb ei ddyrannu ar gyfartaledd ar adeg y Gyllideb Ddrafft wedi bod oddeutu £162 miliwn ar draws y tymor seneddol hwn, o'i gymharu â £811 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, bum gwaith y swm cyfartalog.⁹

45. Awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd gronfa wrth gefn fawr iawn i ddelio â COVID-19 ar gyfer 2021-22 (tua £21 biliwn). Gallai hyn arwain at £660 miliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru pe bai cyllid yn cael ei ddyrannu yn yr un ffordd ag y gwelwyd hyd yn hyn. Fodd bynnag, nododd na allai Llywodraeth Cymru 'fancio' ar y cyllid hwnnw.¹⁰

Proses flaenoriaethu

46. Disgrifiodd y Gweinidog i'r Pwyllgor sut roedd y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol wedi newid yn ystod y pandemig, hyd at flaenoriaethu'r Gyllideb Ddrafft a phenderfynu ar ddyraniadau. Mae Gweinidogion wedi bod yn cyfarfod yn aml yn ystod y pandemig i drafod mynd i'r afael â materion allweddol wrth iddynt godi, y gwaith dan arweiniad y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Jeremy Miles AS, ar ailadeiladu ac adfer; a dadansoddiadau eraill. Dros y cyfnod hwnnw, cafodd y Gweinidog o leiaf ddau gyfarfod dwyochrog

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 209

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 210

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 211

gyda phob Gweinidog a hefyd drafodaethau â'r Cabinet ar flaenoriaethau. Felly er mai dim ond pedair wythnos oedd gan Lywodraeth Cymru i lunio'r Gyllideb Ddrafft ar ôl Adolygiad Gwariant y Deyrnas Unedig, roedd y Gweinidog yn teimlo, drwy ymgymryd â'r gwaith traws-sector hwn, ei bod hi wedi gallu llunio cyllideb a oedd yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd.¹¹

47. Dywedodd y Gweinidog mai un o'r prif wahaniaethau o gymharu'r sefyllfa â blynyddoedd blaenorol oedd dull mwy canolog o gyllidebu, gyda'r Gweinidog yn gwneud dyraniadau penodol unigol i gynlluniau a phrosiectau a blaenoriaethau penodol yn hytrach na chodiad cyffredinol i adrannau.¹²

48. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“... you'll see that across the entire budget in various ways, so I think that it is possible to link allocations with those outcomes, and to be able to monitor them in a very clear and transparent way, both for Government, committee, and, I think, for your constituents as well.”¹³

Gwariant cyfalaf

49. Nodir yn naratif y Gyllideb Drafft bod disgwyl i gyllid cyfalaf ostwng £131 miliwn, gyda chynnydd o £60 miliwn i gyfalaf cyffredinol wedi ei wrthbwysio gan ostyngiad o £191 miliwn i Gyfalaf Trafodion Ariannol (FTC). Mae adroddiad y Prif Economegydd yn nodi bod disgwyl i Gyfyngiadau Gwariant Adrannol (DEL) cyfalaf cyffredinol y Deyrnas Unedig gynyddu 19 y cant rhwng 2020-21 a 2021-22.

50. Awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru y dylai Llywodraeth Cymru wneud defnydd llawn o'i therfyn benthyca cyfalaf yn 2021-22 (sef £150 miliwn).¹⁴

51. Yn ei rhagair i Gyllideb Ddrafft 2021-22, awgrymodd y Gweinidog fod y setliad cyfalaf yn golygu bod “terfyn ar ba flaenoriaethau a phwysau cyfalaf y gallwn eu cydnabod yn ganolog fel rhan o gylch y gyllideb hon”.

52. Awgrymodd David Phillips, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a Dadansoddi Cyllid Cymru fod cyllid cyfalaf yn bwysig ar gyfer yr adferiad. Ailadroddodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod benthyca yn fwy cynaliadwy oherwydd cyfraddau llog isel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, aeth ymlaen i amlinellu pwysigrwydd

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 104

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 111

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 116

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Dadansoddi Cyllid Cymru

cynllunio hirdymor ar gyfer cyllidebu cyfalaf, gan awgrymu nad oedd y gorwelion cynllunio amser hirdymor yno, gyda'r Adolygiad o Wariant yn darparu blwyddyn yn unig o orwel amser.¹⁵ Cytunodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, gan nodi:

“...when there’s a lack of a time horizon to plan projects, that means it is more likely that spending will be, if you like, less wise or less well planned, or even just less deliverable. What we’ve seen sometimes in the past, when there have been large increases in capital spending announced, is that if that comes with too short a lag, it doesn’t get spent.”¹⁶

Trethi

53. Nodir yn y Gyllideb Ddrafft bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chyllido’n bennaf drwy grant bloc gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond bod datganoli pwerau treth yn golygu y bydd tua 17 y cant o wariant Llywodraeth Cymru yn cael ei gyllido o refeniw trethi yn 2021-22.

54. Mae rhai newidiadau i drethiant datganoledig:

Treth Trafodiadau Tir (rhagolwg £231 miliwn, sydd £57 miliwn yn is na rhagolwg mis Mawrth)

- Daw’r gostyngiadau treth dros dro a roddwyd ar waith eleni i ben ar ôl 31 Mawrth 2021.
- O 22 Rhagfyr 2020, mae’r gyfradd uwch ar gyfer prynu eiddo ychwanegol yn codi o 3 y cant i 4 y cant ar ben y cyfraddau safonol. Mae’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif y bydd cynyddu’r cyfraddau hyn yn **cynyddu refeniw £16 miliwn y flwyddyn**.
- O 22 Rhagfyr 2020, mae’r gyfradd sero ar gyfer y ddwy gyfradd amhreswyl yn cynyddu o £150,000 i £225,000. Mae’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif y bydd cynyddu’r trothwyon hyn yn **gostwng refeniw tua £1 miliwn y flwyddyn**.
- Nid yw cyfraddau eraill wedi newid.

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 227

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 230

Treth Gwarediadau Tirlenwi (rhagolwg £33 miliwn, gostyngiad o £1 miliwn o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth)

- Mae'r cyfraddau'n cynyddu yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu oddeutu 2.7 y cant, yn unol â pholisi a chyfraddau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2020.¹⁷

Y rhagolwg treth incwm ar gyfer 2021-22 yw £2.064 biliwn, sef £209 miliwn yn is na rhagolwg mis Mawrth.

- Nid yw lefelau treth incwm wedi newid. Yn absenoldeb polisïau'r Deyrnas Unedig yn y maes hwn, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi tybio y bydd y mwyafrif o drothwyon cyfraddau uwch a lwfans personol yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.
- Yn y naratif ar y Gyllideb Ddrafft nodir mai £2,099 miliwn yw'r addasiad grant bloc ar gyfer treth incwm yn 2021-22 ar gyfer treth incwm a £254 miliwn ar gyfer trethi datganoledig llawn.
- Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nodi bod cyfran Cymru o dreth incwm a phoblogaeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ardrethi annomestig

- Yn 2020-21, roedd mesurau brys COVID-19 yn cynnwys cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig ychwanegol a chronfeydd a grantiau ar gyfer busnesau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2021-22. Mae naratif y Gyllideb yn nodi gwaith a fydd yn cael ei wneud cyn i'r ailbrisiad ddod i rym ar 1 Ebrill 2023, ynghyd â'r effaith y gallai'r ailbrisiad hwn ei chael ar y sylfaen drethu a diwygio apeliadau ardrethi annomestig o bosibl.

55. Er bod y newidiadau i'r trethi tirlenwi a thrafodiadau tir wedi eu nodi yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft, creffir ar y rhain ar wahân a chânt eu pasio ar wahân.

¹⁷ Cyllid a Thollau EM: [LANDFILL TAX BRIEFING](#) - Mawrth 2020

56. Ystyriodd y Pwyllgor y rheoliadau yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyntaf gyda'r Gweinidog, ac adroddodd ar

- Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Cynigir y daw'r newidiadau i'r cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi i rym ar 1 Ebrill 2021. Disgwylir i'r cyfraddau safonol ac is gynyddu yn unol â chwyddiant ac y byddant yn gyfwerth â chyfraddau'r Deyrnas Unedig. Yn ogystal, mae gan Gymru gyfradd uwch ar gyfer gwarediadau diawdurdod. Bydd yn cynyddu ar yr un gyfradd â'r gyfradd uwch felly ni fydd yr effaith ataliol yn lleihau.

- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio gwrth-osgoi i fod yn berthnasol i'r rhai sy'n talu symiau sylweddol o rent. Mae'r codiad yn y bandiau cyfradd sero ar gyfer eiddo amhreswyl yn peri bod angen codiad yn y swm penodedig o rent perthnasol er mwyn cynnal yr un berthynas rhwng maint y band cyfradd sero a'r swm rhent perthnasol. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r band cyfradd sero i £13,500, sef cynnydd o 50 y cant, yr un cynnydd canrannol â'r bandiau cyfradd sero. Pan fo'r rhent perthnasol yn swm penodedig (£13,500) neu fwy, ni chaiff y band cyfradd sero i'w ystyried heblaw rhent ei gymhwyso a chaiff yr ystyriaeth honno ei threthu yn y band treth nesaf.

- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cynyddodd y rheoliadau ar eiddo ychwanegol, neu 'ail' eiddo. Mae hwn yn dâl ychwanegol a all fod yn gymwys 'lle mae unigolyn, sydd eisoes yn berchen ar un neu ragor o eiddo preswyl, yn prynu eiddo preswyl pellach'.

Ar y trothwy prisiau isaf, ar eiddo gwerth hyd at £180,000, mae'r gyfradd wedi cynyddu i 4 y cant, i fyny o 3 y cant. Mae'r bandiau eraill i gyd wedi cynyddu 1 y cant, yn amodol ar gytundeb yn y Senedd, a fydd yn weithredol o 22 Rhagfyr 2020, o'i gymharu â'r cyfraddau blaenorol sydd wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2019.

Y bwriad datganedig, sef cynyddu'r cyfraddau preswyl uwch, yw codi refeniw ac ariannu gostwng y cyfraddau amhreswyl, sydd wedi'u targedu at fentrau bach a chanolig, gan gynnwys yr economi sylfaenol.

57. Bu rhywfaint o feirniadaeth gan gyfreithwyr ynghylch y diffyg rhybudd am y cynnydd yn y trothwyon.¹⁸ Nodir yn y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 bod Llywodraeth Cymru wedi "ymgysylltu â chyrff proffesiynol er mwyn helpu i hysbysu trethdalwyr Cymreig am y newidiadau hyn".

58. Bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw ar y rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Chwefror.

Goblygiadau ariannol hirdymor i Lywodraeth Cymru

59. Yn ei adroddiad 'Austerity is over – for now', dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y cynnydd termau real a gafwyd yn 2019-20 a 2020-21 yn cynrychioli newid sylweddol yn nhaflwybr cyllideb adnoddau Cymru.

60. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi nodi bod yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gostwng y codiadau a gynlluniwyd yn flaenorol mewn gwariant o ddydd i ddydd, a hynny o £10 biliwn yn 2021-22, a £13 biliwn yn 2024-25. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn awgrymu "unless revised, these spending plans suggest a bleaker outlook for the Welsh budget over the medium term and may possibly mean a return to austerity for some areas of the budgets".¹⁹

61. Fodd bynnag, dywedodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid:

"The first thing I'd note is that while £10 billion has been taken out of the core budget in cash terms, the real-terms reduction is a little bit smaller. Inflation is a little bit lower than they thought it was going to be. Also, the budget is still increasing in cash terms and real terms, but over the two years from 2020-21 and 2021-22, real-terms budgets are going up 4 per cent a year—in real terms each year. But, of course, it still is less money than was initially planned to be spent in this year. I think the difficult thing in saying, 'What is the implication for the Welsh Government?' per se is that this was the first time we actually had departmental allocations of that money. So, we don't know where this

¹⁸ BBC, Land transaction tax: 'Chaos' over changes for second homes, 22 Rhagfyr 2020.

¹⁹ Dadansoddi Cyllid Cymru, Golwg ar Gyllideb Cymru 2020.

£10 billion was otherwise going to be spent. If we hadn't had this, we don't know how much extra the Welsh Government would have got. We know about £4 billion of the £10 billion comes from overseas aid. We don't know where the other £6 billion would have been spent had it not been cut from the budget.”²⁰

62. Nid oedd Dadansoddi Cyllid Cymru yn disgwyl i'r newid hwn wneud gwahaniaeth sylweddol yn 2021-22, ond aeth ymlaen i ddweud y gallai hyn fod yn fwy amlwg yn 2022-23 a 2023-24:

“If you look at the projected size of the Welsh budget over the next three years, pretty much all of the growth comes from NHS increases and school spending and increases in England. Everything else doesn't grow at all, even in nominal terms. So, that means that the consequential passed on, if the Welsh Government passes on those consequential to healthcare in Wales—that potentially means austerity for other areas of the budget.”²¹

63. Yn ogystal, amlinellodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid rai o'r materion posibl a allai godi yn sgil y dirywiad economaidd, gan nodi bod argyfyngau economaidd yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyflyrau iechyd hirdymor, yn enwedig cyflyrau iechyd meddwl, ac y bydd angen buddsoddiad o bosibl.²²

Barn y Pwyllgor

64. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyllid canlyniadol mawr wedi ei ddyrannu yn ystod 2020-21, yn ddirybudd neu heb fawr o rybudd ar y gorau i Lywodraeth Cymru. Bu problemau hefyd o ran tryloywder y cyllid canlyniadol hyn, a sut y caiff ei gyfrifo. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mai gwybodaeth gyfyngedig sydd gan y Pwyllgor ynghylch cyllid canlyniadol a datganiadau gwrthgyferbyniol gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru. Er bod y warant gyllido wedi darparu rhywfaint o sicrwydd i'w groesawu, nid oes gwarant ar gyfer 2021-22. Gyda Llywodraeth Cymru yn dal cronfeydd wrth gefn sylweddol, newidiadau posibl i'r cyllid cyffredinol a ddisgwylir yn dilyn Cyllideb mis Mawrth y Deyrnas Unedig a chyllid canlyniadol pellach yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r pandemig parhaus, mae'n amlwg bod hon yn Gyllideb Ddrafft yng ngwir ystyr y gair.

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 219

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 223

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 233

- 65.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, oherwydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â llunio'r Gyllideb Ddrafft hon, ei bod yn debygol y bydd newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol, ac mae'n debygol y bydd diwygiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn parhau'r flwyddyn nesaf wrth i'r pandemig ymestyn i 2021-22.
- 66.** Mae mwyafrif y £766 miliwn o arian sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gyhoeddwyd fel rhan o Adolygiad Gwariant y Deyrnas Unedig heb ei ddyrannu ac mae potensial ar gyfer dyraniadau pellach yng Nghyllideb y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth. Gallai newidiadau fod hefyd i gyllid 2020-21 yn yr Amcangyfrifon Atodol, a allai yn ei dro effeithio ar lefel y cronfeydd wrth gefn y gall Llywodraeth Cymru eu dwyn ymlaen i 2021-22. Er ein bod yn cydnabod y rhesymau y tu ôl i'r ansicrwydd mewn cyllid, mae'r ansicrwydd hwn yn amharu ar y broses graffu.
- 67.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ymdrechion y Gweinidog wedi eu gwneud i ddisgrifio a rheoli'r broses flaenoriaethu yn fwy canolog eleni.
- 68.** Bydd yn hanfodol bod y Chweched Senedd a'r Pwyllgor Cyllid nesaf yn gallu craffu'n effeithiol ar y broses o wneud penderfyniadau a'r broses ddyrannu, a bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru a Gweinidog Cyllid nesaf Cymru yn darparu digon o wybodaeth i gynorthwyo'r broses graffu.
- 69.** Roedd ystyried y rheoliadau treth ar yr un pryd â chraffu ar y Gyllideb Ddrafft yn fuddiol, ond roedd y Pwyllgor o'r farn, yn unol â chasgliadau yn adroddiad yr Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb, y byddai'n fwy doeth i'r gyllideb a phenderfyniadau treth gael eu hystyried a'u cyflwyno ar gyfer pleidleisio yn y Senedd ar yr un pryd.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hon yn gyllideb ddrafft o ddifrif o'i chymharu â'r arfer, gyda chyllid sylweddol heb ei ddyrannu eleni. Er bod hynny'n ddealladwy, nid yw hyn yn ffafriol o ran craffu ar y gyllideb yn effeithiol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael eu cynnal erbyn dyddiad penodol i sicrhau bod gan weinyddiaethau datganoledig ddigon o amser i bennu cyllideb a gwneud gwaith craffu ystyrlon.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i setliadau cyllido aml-flwyddyn mewn pryd ar gyfer proses gyllideb y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymadau gwariant mewn

perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol mae'n ei dderbyn, er mwyn llywio'r gwaith craffu yn y flwyddyn ariannol a ddaw.

3. Cyllido, ysgogiadau treth a'r sylfaen drethu

70. Yn ddiweddar, archwiliwyd llawer o'r themâu yr ymdrinnir â hwy yn y bennod hon yn adroddiad y Pwyllgor ar weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Yn hytrach nag ailadrodd y gwaith yn yr adroddiad hwnnw, mae'r bennod hon yn cwmpasu'r themâu sy'n benodol berthnasol i'r Gyllideb Ddrafft hon a dylid ei hystyried ochr yn ochr â'r adroddiad arall ar gyfer gwaith dadansoddi ehangach y Pwyllgor.

Yr economi

71. Mae'r rhagolygon yn Adroddiad Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos na fydd allbwn yn gwella i lefelau cyn-COVID-19 tan ddiwedd 2022, tra mae adroddiad y Prif Economegydd yn nodi y gallai diweithdra gynyddu 44,000 yng Nghymru.²³

72. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yr ansicrwydd mawr ynghylch y rhagolygon economaidd, a arweiniodd at gynnwys tair senario wahanol yn ei ragolygon ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru, yn amodol ar dri rhagdybiaeth allweddol:

“one was an assumption about the course of the virus; the second were assumptions about the effectiveness of public health restrictions required to try and contain its spread; and the third were assumptions about the roll-out and effectiveness of the vaccine. And depending on different assumptions about those three conditioning elements of the forecast, we've produced an upside scenario, a central scenario and a downside scenario. We also presented—because at the time there was uncertainty about the outcome of the Brexit negotiations—an alternative scenario, in case we ended up leaving the EU without a deal.”²⁴

73. Yn y tymor byr, awgrymodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y byddai'r rhagolygon yn agosach at ei senario lleiaf cadarnhaol. Yn y tymor canolig, mae cynnydd da o ran cyflwyno'r brechiad yn gadarnhaol, ond bydd straen mwy ffyrnig y feirws yn golygu y gallai fod angen cyfyngiadau iechyd cyhoeddus llymach am fwy o amser.²⁵

²³ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020, tudalen 11

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 23

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2020, paragraffau 24 a 25

74. Roedd rhagolygon blaenorol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ers refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar gytundeb masnach rydd ‘cyfartalog’ gyda’r Undeb Ewropeaidd. Gostyngodd hyn lefel yr allbwn tua 4 y cant dros y tymor hir o’i gymharu â rhagolygon cyn y refferendwm. Byddai Brexit heb gytundeb wedi lleihau hyn ymhellach 2 y cant dros y tymor hwy. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod arbenigwyr annibynnol yn amcangyfrif bod canlyniad hirdymor y cytundeb yn ‘weddol agos’ at y ragdybiaeth o 4 y cant, gan olygu nad yw’r gostyngiad ychwanegol o 2 y cant wedi digwydd.²⁶

75. Mae rhywfaint o aflonyddwch byrdymor hefyd ynghylch ffrithiannau masnach, a dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd angen iddo eu hasesu yng nghyd-destun ei ragolygon, gan gynnwys a yw unrhyw rai yn debygol o aros ar ryw ffurf yn y tymor hwy.²⁷

76. Mae’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn adolygu manylion y cytundeb masnach i asesu cywirdeb ei amcangyfrif o’r gostyngiad hirdymor o 4 y cant mewn allbwn. Y dadansoddiad cychwynnol yw nad oedd yn disgwyl i’r canlyniadau newid ei amcangyfrif yn sylweddol, er bod trefniadau maes gwasanaeth y mae’n rhaid cytuno arnynt o hyd.²⁸

77. Nodir yn adroddiad y Prif Economegydd bod sefyllfa ariannol y Deyrnas Unedig “yn amlwg yn anghynnaladwy dros y tymor canolig”.²⁹

78. Nododd y Gweinidog fod ansicrwydd y rhagolygon economaidd yn gysylltiedig â hynt y feirws, effeithiolrwydd y brechlyn a’r ffordd mae busnesau ac unigolion yn ymateb i’r sefyllfa y cawn ein hunain ynddi. Er mwyn delio â’r ansicrwydd, manylodd y Gweinidog:

“I’ve held back significant resource in our reserve for next year. I do, as I said to committee, intend to make some allocations between the draft budget and the final budget, but I would expect there to be some more for an incoming government to respond as well.”³⁰

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 30

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 34

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 31

²⁹ Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Prif Economegydd, 2020

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 8

Trethi datganoledig

Rhagolygon trethi datganoledig

79. Er bod y referniw a ragwelir o'r trethi datganoledig wedi gostwng³¹, mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiadau i ragolygon treth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar y sefyllfa ledled y Deyrnas Unedig. Nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r farn bod tystiolaeth y byddai rhwymedigaethau treth incwm yng Nghymru yn cael eu heffeithio'n fwy neu'n llai na chyfartaledd y Deyrnas Unedig oherwydd y pandemig.³²

80. Er bod cyfran treth incwm y Deyrnas Unedig a gesglir yng Nghymru wedi bod yn lleihau, nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i'r gyrwyr sydd wedi achosi hyn barhau (er enghraifft, y cynnydd dramatig mewn lwfans personol dros y degawd diwethaf). Wrth edrych tua'r dyfodol, nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl dargyfeiriad sylweddol o dwf derbyniadau treth incwm y Deyrnas Unedig:

"We do make one adjustment, which is an adjustment for population. What we do think we know with some certainty, and based on the ONS projections, is the fact that the Welsh population is declining relative to the UK population. That lowers the forecast by about 1 per cent over the five years of the forecast, but other than that, we don't forecast significant diversion in the earnings base for taxation between Wales and the UK."³³

81. Wrth ymateb i bryderon ynghylch yr ansicrwydd yn y rhagolygon treth, dywedodd y Gweinidog:

"...the Office for Budget Responsibility said that it does not believe there is evidence that income tax liabilities in Wales would be impacted more or less than the average due to the pandemic. I think that's a helpful analysis for us. We will receive the outturn information for Welsh rates of income tax for 2019-20 later this year, and that will be a very important and interesting point for us in Government, and I'm sure for committee as well, and although it won't directly impact on our budget for 2021-22, it may impact both the tax forecasts and the block grant adjustments for future years. So, that's why it's advisable that we

³¹ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 41

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 47

consider a range of scenarios, which we've done, and you've seen that in the chief economist's report, which is published alongside the draft budget.”³⁴

Data trethi

82. Aeth y Pwyllgor ar drywydd pryderon ynghylch defnyddio mwy o ddata penodol o Gymru, ei argaeledd a chamau i'w wella er mwyn llywio rhagolygon economaidd a threthi a hefyd i gael gwybodaeth fwy gronynnog ar gyfer ffurfio polisi.

83. Awgrymodd y Gweinidog fod argaeledd data yn gwella a bod cyhoeddi ystadegau enillion misol a chyflogaeth amser real o'r system Talu Wrth Ennill yn ddefnyddiol.³⁵

84. Soniodd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o weithgor treth incwm sy'n edrych yn arbennig ar ddata trethi. Mae'r grŵp hwn yn gweithio ochr yn ochr â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Cyllid a Thollau EM, Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Cyllidol yr Alban i wella'r math o ddata a dderbynnir.³⁶

Newidiadau i'r trethi datganoledig

“Diddymu treth trafodion tir ar gyfer pob prynwr tro cyntaf a hysbysebu hynny – denu graddedigion ifanc i Gymru.”

“Cynyddu trethi'r enillwyr uchaf yn unig. Cael gwared ar ffyrdd o osgoi talu trethi.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

85. Ar 22 Rhagfyr 2020, gwnaed newidiadau i'r bandiau treth ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir amhreswyl drwy Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020. Croesawodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) a Chynghrair Twristiaeth Cymru y newidiadau hyn.³⁷

86. O ran ardrethi annomestig, tynnodd y Gweinidog sylw at gostau ariannol sylweddol y cynlluniau cymorth cyfredol sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac awgrymodd y byddai angen i fwriadau i barhau neu amnewid cynlluniau mor

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 9

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 59

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 59

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2020, paragraffau 237 a 239

sylweddol ddilyn cyhoeddiadau o gyllid pellach gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

87. Can gyfeirio at gynlluniau cymorth cysylltiedig â COVID-19, roedd y Gweinidog yn disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud cyhoeddiad yn gynnar yn y flwyddyn galendr hon, ac yna byddai gan Lywodraeth Cymru:

“...understanding of any additional support that might be made and the consequentials available to us then, then we’ll be able to make a decision on that. I would be keen, obviously, to provide support, but I think that when we reflect on the fact that we’ve had only £766 million for COVID for next year, as compared to the £5.2 billion this year, any scheme that really looks to support these sectors with rate relief would take out, really, that funding that we’ve had for all of COVID for next year. So, we await keenly the UK Government’s decision as soon as possible.”³⁸

88. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’r broses ailbrizio ardrethi annomestig yn digwydd yn 2023 ac y byddai’n cael ei chymhwyso’n gyson ledled Cymru a Lloegr. Byddai angen gwaith paratoi helaeth, gan gynnwys ailasesu’r holl eiddo annomestig i adlewyrchu gwybodaeth wedi ei diweddarau, gan gynnwys amodau’r farchnad. Roedd y pandemig yn debygol o effeithio ar hyn, er bod y Gweinidog wedi nodi nad yw wedi deall yn union eto sut gallai hynny edrych.³⁹

Fframwaith Cyllidol

“Aildrafod ein setliad”

“Bod Cymru’n cael 30 ceiniog o bob £1 o dreth sy’n cael ei chasglu, yn lle 10 ceiniog”

“Gallai Llywodraeth Cymru fynnu ei bod yn cael mwy o bwerau cyllidol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru fel y byddai gan Lywodraeth Cymru fwy o ddewisiadau i gynyddu ei refeniw.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 69

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 73

- 89.** Mae naratif y Cyllideb ddrafft yn dangos bod gan Lywodraeth Cymru gronfeydd wrth gefn o £811 miliwn o refeniw cyllidol, £109 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £5 miliwn o arian cyfalaf trafodion ariannol.
- 90.** Cydnabu'r Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru arian 'sylweddol' wrth gefn⁴⁰ ond dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod hi'n disgwyl y bydd angen gwneud dyraniadau ychwanegol.⁴¹
- 91.** Gwnaed dyraniadau sylweddol drwy fformiwla Barnett yn 2020-21. Fodd bynnag, mae problemau gyda'r broses hon wedi arwain at Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud i system o 'warantau' ar gyfer llywodraethau datganoledig. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn nodi bod y warant gyllido wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i'w groesawu ar gyfer y llywodraethau datganoledig.⁴²
- 92.** Fodd bynnag, amlinellodd y Gweinidog i'r Pwyllgor fod tryloywder yn 'dal yn eithaf gwael' a nododd anawsterau wrth gysoni a chadw golwg ar warantau cyllido Llywodraeth y Deyrnas Unedig.⁴³
- 93.** Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid eisoes wedi cwestiynu pa mor briodol yw fformiwla Barnett yng nghyd-destun dyrannu cyllid ar gyfer y pandemig. Awgrymodd ym mis Mawrth 2020 fod gwahaniaethau demograffig (gan gynnwys oedran y boblogaeth a ffactorau economaidd) fel y ffaith bod gan fwy o fusnesau werthoedd ardrethol is yng Nghymru o gymharu â Lloegr (gan gynyddu costau cyllid grant yn sgil hynny, o bosibl), yn rhesymau dros osgoi'r fformiwla yn gyfan gwbl.
- 94.** Fodd bynnag, o ran treth, awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y fframwaith cyllidol yn gweithio o blaid Cymru, gan nodi:

"I think, at the moment, given where we are, in terms of public spending and the economy, it's just keeping our heads above water for the moment, because right now our favourite topic of the fiscal framework is kicking in in a way that is quite helpful to the Welsh budgetary position. So, you're exactly right that we've had a big reduction in the forecast tax receipt, particularly in income tax, but

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 13

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 13

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig: Dadansoddi Cyllid Cymru

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Rhagfyr 2020, paragraff 10

that's almost entirely offset by a smaller reduction to the Welsh block grant."⁴⁴

Hyblygrwydd o ran cyllid

"Cynyddu benthyca i'w wario ar brosiectau gydag elw hirdymor ar gyfalaf"

"Nid yw benthyg arian yn synhwyrol yn economaidd fel arfer."

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

95. Yn naratif y Gyllideb ddrafft gelwir am ragor o hyblygrwydd wrth fenthyca, o ran y cyfyngiadau blynyddol a chyfanredol.

96. Ym mis Mawrth 2020, awgrymodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y gallai hyblygrwydd o ran y terfynau benthyca fod yn briodol yn sgil y pandemig. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol⁴⁵ (y Comisiynydd) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru⁴⁶ hefyd o blaid cynnydd yn y terfynau benthyca, i ddelio â'r argyfwng iechyd cyhoeddus.

97. Cytunodd Colegau Cymru bod angen hyblygrwydd, gan nodi:

"There should be some flexibility around the existing Fiscal Framework as the ongoing costs and impact of COVID-19 continue to emerge and to be understood. The Welsh Government should have all necessary channels available, including more flexible annual and/or overall limits to Welsh Government borrowing, to respond to the public health emergency and to adequately provide support should local lockdowns for example, continue to be a feature of 2021."⁴⁷

98. Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio cael ymateb tuag at ddiwedd mis Ionawr 2021 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w chais am hyblygrwydd i ddwyn ymlaen i 2021-22 unrhyw gyllid heb ei wario ar ymateb i COVID-19 uwchlaw'r terfynau presennol i Gronfa wrth gefn Cymru.⁴⁸

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 246

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Tachwedd 2020

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: Colegau Cymru

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 13

99. Roedd Dadansoddi Cyllid Cymru o'r farn y dylid rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru, gan nodi blynyddoedd blaenorol fel cynsail:

"The UK government has agreed some flexibility over previous years when late changes were made to the Welsh Government's block grant via the UK Supplementary Estimates. As in the case of current borrowing powers, the rules governing the Wales Reserve should be amended to reflect the heightened uncertainty which the Welsh Government faces this year and will likely face over coming years."⁴⁹

Barn y Pwyllgor

100. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cael eu darparu gydag amrywiaeth o senarios, oherwydd yr amgylchiadau pan baratowyd y rhagolygon. Y gobaith yw y bydd y rhagolygon wedi eu diweddarau, pan gânt eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021, yn rhoi sylfaen gadarnach ar gyfer deall economi Cymru a llywio penderfyniadau polisi.

101. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, ar adeg llunio'r Gyllideb Ddrafft hon a'r broses o graffu arni, na wnaed unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar allu Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen gyllid ychwanegol neu fenthyca cynyddol, yn enwedig yn ystod y pandemig. Mae gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio a gweithredu polisiâu wedi cael ei rwystro gan nad oedd hi'n gwybod am yr union gyllid canlyniadol nes byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi polisiâu, ac mae hynny'n cael ei waethygu ymhellach gan gyfyngiadau ar hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Er bod gweithredu gwarantau cyllid wedi helpu hyn, mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid a fyddai ar gael yn ystod y flwyddyn yn parhau. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cadw'r terfynau presennol yn ddi-fudd ac nad yw'n caniatáu rheolaeth ariannol effeithiol.

102. Mae'r amwysedd ynghylch cyllid, hynt y pandemig, ynghyd â'r rhagolygon cyfnewidiol o ran yr economi a threthi, yn creu cryn ansicrwydd i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Mae angen ystyried sut gellir rheoli'r ansicrwydd hwn yn effeithiol.

103. Fel y soniwyd yn y bennod flaenorol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd penderfyniadau ar y cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2021-22 yn fater i Lywodraeth nesaf Cymru. Fodd bynnag, bydd angen ystyried sut mae'r Senedd yn cael gwybod am newidiadau mewn dyraniadau.

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Dadansoddi Cyllid Cymru

104. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cyllid canlyniadol a ddarperir yn dilyn penderfyniadau polisi a wnaed yn San Steffan yn hanfodol ar gyfer cymorth yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, os yw anhyblygrwydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch dwyn ymlaen arian wrth gefn yn arwain at golli cyllid i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau fel cyflymu cyllid a ddarperir i feysydd allweddol er mwyn osgoi hyn.

105. Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Adolygiad Gwariant Canghellor y Trysorlys, ~~ysgrifennodd y Pwyllgor at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys~~ yn gofyn am ei farn mewn perthynas â'r cyhoeddiadau cyllido i Gymru, gan gynnwys diffyg y sector amaethyddol, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyllid HS2. Mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb i'r llythyr hwn.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun ar fyrder ar gyfer cyflymu cyllid, os na fydd cytundeb ar gynyddu cyfyngiadau ar ddwyn cyllid ymlaen yng nghronfa wrth gefn Cymru, er mwyn atal colli unrhyw arian i Gymru.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid teg mewn perthynas â phenderfyniadau diweddar sy'n achosi ansicrwydd neu'n effeithio ar gyllid sydd ar gael i Gymru, fel HS2, y gronfa ffyniant gyffredin, cyllid o golofn i golofn, tomennydd glo etifeddol, difrod llifogydd a bod Gweinidog Cyllid y presennol a'r dyfodol yn diweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, lle mae materion parhaus yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, bod angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chyllid i sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn i gyllid gyrraedd lle mae ei angen ar frys.

4. Ymateb i COVID-19

COVID-19

106. Amlygodd y Gweinidog ansicrwydd y rhagolygon economaidd sy'n dibynnu ar hynt y feirws, effeithiolrwydd y brechlyn a'r ffordd mae busnesau ac unigolion yn ymateb i'r pandemig. Dywedodd mai dyna un o'r rhesymau pam mae hi wedi cadw adnoddau sylweddol yn ôl yng nghronfa wrth gefn Llywodraeth Cymru.⁵⁰

107. Cadarnhaodd y Gweinidog fod bron i £700 miliwn o'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu mewn perthynas â COVID-19 a'i bod yn bwriadu gwneud rhai dyraniadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol, ond y byddai'n disgwyl y byddai rhywfaint yn fwy i'r llywodraeth newydd ymateb hefyd.⁵¹

108. Dywedodd y Gweinidog, o ystyried bod y Llywodraeth yn gweithredu mewn cyfnod hynod ansicr, a thwf dau straen newydd y coronafeirws, roedd cyfiawnhad dros ei phenderfyniad i ddyrannu dim ond rhan fach o gyllid COVID-19 ar y pwynt cychwynnol hwn wrth bennu'r gyllideb a chadw 'cryn dipyn' o'r cyllid hwnnw sy'n gysylltiedig â COVID tan gyfnod diweddarach.⁵²

109. Dywedodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o fecanweithiau ymgysylltu â phartneriaid i fonitro'r ymateb parhaus i'r pandemig, ac mae'r Gweinidogion yn defnyddio'r trafodaethau hynny i lunio'r ceisiadau cyllid a gyflwynwyd iddi fel Gweinidog Cyllid. Aeth ymlaen i ddweud:

"I think that the shadow social partnership council, which the First Minister chairs and which continues to meet fortnightly, has been really useful in terms of understanding the pressures that stakeholders and partners are facing and is helping us to respond to that. I know the Future Generations Commissioner for Wales in her response to you has welcomed this engagement that we've had, particularly on spending considerations and decisions through that social partnership approach."⁵³

110. Tynnodd y Gweinidog sylw at y graddau mawr o ansicrwydd ynghylch unrhyw gyllid ychwanegol COVID-19 y gallai Llywodraeth Cymru ei dderbyn gan

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 8

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraffau 8 ac 11

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 7

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 21

Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd hi o'r farn y byddai rhywfaint o arian ychwanegol y tu hwnt i'r cyllid a gafwyd eisoes yn y setliad, ond ei bod yn anodd iawn dweud beth allai hynny fod.⁵⁴ Dywedodd:

“this next financial year we will only have, as things stand at the moment, £766 million of additional funding for COVID, and that compares, of course, with the £5 billion that we've had in this financial year. We also know that the UK Government has only allocated around £32 billion of £55 billion that they've set aside for COVID, but we understand that a significant part of that residual will be for UK-wide measures—so, the continued roll-out of the vaccination programme, for example, the work of the lighthouse labs, and so forth.”⁵⁵

111. Amlygodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn cael 'bron dim' rhybudd ymlaen llaw am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'i bod yn aml yn dod i wybod am gyhoeddiadau ar yr un pryd â phawb arall.⁵⁶

Y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol

“Mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi siarad drosto'i hun yn ystod y pandemig.”

“Dylai iechyd fod yn flaenoriaeth”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

112. Dywedodd y Gweinidog fod y Gyllideb Ddrafft yn pennu mwy na £385 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG, gan fynd â chyfanswm cyllid y GIG yn 2021-22 i fwy na £8.4 biliwn.⁵⁷

113. Cadarnhaodd y Gweinidog fod hwn yn godiad sylweddol i brif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a hynny i gydnabod y rôl bwysig mae iechyd yn ei chwarae yn yr agenda hon.⁵⁸

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 80

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 80

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 77

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 52

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2020, paragraff 8

114. Dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog Iechyd) wedi nodi meysydd penodol lle bydd angen rhoi blaenoriaeth, gan gynnwys:

“...the continuation of the roll-out of the mass vaccination programme, the further support for the test, trace, protect programme, and that includes maintaining NHS capacity within our Welsh labs here in Wales, and the further expansion of community testing as well. He’s also clear that we have to maintain the additional capacity in field hospitals and within the core estate as well, as long as they are necessary, and obviously maintain that supply of PPE for health and social care, and then, when conditions allow, to start resuming the more routine work of the NHS and addressing what are really significant backlogs as well. So, those will be the priority areas.”⁵⁹

115. Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud rhywfaint o ddarpariaeth yn ei chyllideb ar gyfer gorwariant posibl byrddau iechyd lleol.⁶⁰ Fodd bynnag, nododd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cynlluniau rhagolygon gan gyrrff y GIG eto.⁶¹

Staff y GIG

116. Amlygodd Conffederasiwn GIG Cymru faint o wariant y GIG ar staff asiantaeth sydd ei angen i gynorthwyo staff ar y rheng flaen yn ystod y pandemig⁶²:

“I think the pandemic has shone a light, really, on how close we’re sailing to the wind in terms of staff numbers and staff capacity, and I think, before the pandemic struck, there were worryingly high vacancy rates in parts of Wales in certain front-line health professionals.”⁶³

117. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru mai’r gweithlu oedd y ffactor cyfyngu allweddol o ran gallu’r GIG i ddelio â’r pandemig. Roedd angen buddsoddiad yn y gweithlu a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer y dyfodol, ac nid

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 41

⁶⁰ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 24

⁶¹ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 44

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 157

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 157

oedd hyn wedi ei gyfyngu i feddygon a nyrsys yn unig, gan fod angen cofio am ddisgyblaethau ehangach gan gynnwys staff yn y gymuned, fel meddygfeydd a fferyllyfeydd.⁶⁴

118. Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon fod ‘elfen fwyaf’ y cynnydd yn y cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG yn ymwneud â’r codiadau cyflog i staff y GIG. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion o’r broses adolygu cyflogau eto, ac felly roedd angen gwneud rhyw fath o ddarpariaeth.⁶⁵

Rhaglen frechu

119. Cadarnhaodd y Gweinidog fod £27 miliwn eisoes wedi ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer cyflwyno’r rhaglen frechu, a chyllid o £10 miliwn ar gyfer y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Dywedodd na ddylid atal y gwaith o gyflawni’r agweddau pwysig hyn ar unrhyw gyfrif, ac felly mae hi wedi darparu sicrwydd yn y gyllideb.⁶⁶

120. Eglurodd swyddog y Gweinidog fod y cyllid ar gyfer y rhaglen frechu yn gyfuniad o gyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

“it’s the UK that’s acquiring the supplies of vaccine and distributing the supplies of vaccine around the UK, and then it’s the Welsh Government that’s funding the delivery of that vaccination programme in Wales. I think that’s a kind of additional complexity in terms of understanding and scrutinising the costs of the programme and how those costs break down between the different administrations, and I think that’s something we’ll need to reflect on going forward with the UK Government about how we kind of provide information about that in a way that enables proper scrutiny of the cost of delivering the programme.”⁶⁷

121. Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei fod yn disgwyl parhau i gyflenwi cyfarpar diogelu personol am

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 157

⁶⁵ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 48

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 28

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 47

gyfnod sylweddol, ac na fydd yr angen am brofion yn diflannu, ac y bydd yn fater mwy arwyddocaol os gallwn i ddychwelyd i deithio'n rhyngwladol eto.⁶⁸

122. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai costau parhaus cyfarpar diogelu personol, ysbytai maes a'r rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu yn effeithio'n sylweddol ar sefydlogrwydd ariannol byrddau iechyd lleol.⁶⁹

lechyd meddwl a gofal nad yw'n gysylltiedig â COVID

123. Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am 'gostau dynol ac ariannol' gohirio gofal nad yw'n ofal COVID. Dywedodd:

“...over this next year, I hope we'll be looking to the serious business of financial recovery and healthcare recovery, and that will mean looking to turn on new activity at the same time that we'll still be dealing with the consequences for our staff of all they've done within the pandemic.”⁷⁰

124. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod darparu gofal heblaw am ofal COVID yn llawer anoddach oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, gan ychwanegu:

“there are approximately half the number of people on a ward that would normally be there for recovery post surgery, and things happening in community care. There will definitely be a very large cost—very difficult to put a figure on—to enable services to recover. It's an enormous challenge and probably as big a challenge as COVID itself.”⁷¹

125. Ategwyd y farn hon gan Dadansoddi Cyllid Cymru a awgrymodd y byddai cynhyrchiant yn debygol o ddirywio yn y GIG oherwydd cyfyngiadau fel cadw pellter cymdeithasol, gan nodi:

“... if productivity is about 5 per cent lower next year, that means additional costs of about £400 million. So, given the funding that hasn't

⁶⁸ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraffau 17 ac 18

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Conffederasiwn GIG Cymru

⁷⁰ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 7

⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 188

been allocated yet, COVID funding, a lot of that's going to be swallowed up by the NHS, I would think."⁷²

126. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei adroddiad ar ei Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant. Yn yr adroddiad hwn, cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch mynediad pobl at wasanaethau iechyd meddwl ac adroddodd ei fod wedi clywed tystiolaeth a barodd bryder ynghylch argaeledd cymorth.⁷³

127. Dywedodd y Gweinidog fod gwasanaethau iechyd meddwl yn mynd i fod yn flaenoriaeth enfawr yn y dyfodol, a oedd yn cael ei adlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft yn ei barn hi. Ychwanegodd:

"We're allocating an additional £42 million for mental health-related activity next year, and that includes £20 million additional funding within health and social services to increase mental health support across a range of areas, including increased support for front-line non-clinical services, all-age crisis support, memory assessment services, and support for the clinical pathway through the 111 telephone service."⁷⁴

Barn y Pwyllgor

128. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod effaith yr ansicrwydd ynghylch llwybr y pandemig a chyfanswm y cyllid a fydd ar gael yn 2021-22. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hyn wedi gwaethygu ymhellach yn sgil cynnydd mathau newydd o'r feirws. Er bod y Pwyllgor yn derbyn ei bod yn ddoeth i Lywodraeth Cymru gadw cronfeydd wrth gefn ar y lefel sydd yn y Gyllideb Ddrafft hon, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Pwyllgor ddod i farn ar ddyraniadau a wnaed i ymateb i'r pandemig.

129. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog yn disgwyl y bydd rhagor o gyllid COVID-19 yn dod i Gymru gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o ystyried mai dim ond £32 biliwn o'r £55 biliwn y mae wedi ei neilltuo ar gyfer COVID-19 y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei ddyrannu. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau o wneud penderfyniadau cyllido yn ystod pandemig gyda'r sefyllfa'n newid yn gyflym, mae'n annerbyniol nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi llawer o rybudd ymlaen llaw bod cyllid ychwanegol yn dod i Gymru. Mae hwn

⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 272

⁷³ Datganiad i'r wasg gan y Senedd. Pwyllgor Iechyd yn clywed ein bod yn wynebu "storm berffaith o ran salwch meddwl". 17 Rhagfyr 2020

⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 29

wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor cyn y pandemig, gan ei bod yn amlwg bod diffyg rhagrybudd o gyhoeddiadau cyllid yn achosi anawsterau o ran rheoli'r gyllideb i Lywodraeth Cymru.

130. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r rôl ganolog mae'r Gweinidog yn ei chwarae wrth drafod materion a blaenoriaethu adnoddau, yn ystod y flwyddyn ac yn ystod paratoadau'r gyllideb ddrafft. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru gael systemau ar waith i sicrhau y gall flaenoriaethu a darparu cyllid yn gyflym ac yn effeithiol pan dderbynnir cyllid canlyniadol.

131. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y codiad i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n adlewyrchu'r rôl bwysig mae iechyd yn ei chwarae wrth ddelio â'r pandemig. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o adnoddau a nodwyd ar gyfer y codiad cyflog i staff y GIG, a thrwy hynny, pa gyllid ychwanegol fydd ar gael i ymateb i'r pandemig, yn ogystal â gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod effaith y pandemig yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen dyrannu cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r GIG a gofal cymdeithasol yn ystod 2021-22, a gallai hyn arwain at ohirio darparu gofal iechyd nad yw'n gysylltiedig â COVID a gwasanaethau sector cyhoeddus eraill. Mae hwn yn fater sydd angen sylw ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwneud gwaith ychwanegol i sicrhau cydnerthedd y sector cyhoeddus yng Nghymru.

132. Mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r £25 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer trawsnewid y GIG yn ddigonol, ac mae'r Pwyllgor o'r farn, os yw'r GIG am gael ei gynorthwyo'n effeithiol, y bydd angen cynyddu hyn o bosibl.

133. Amlygodd Conffederasiwn y GIG fod problemau sylweddol o ran capasiti'r gweithlu cyn y pandemig, a bod y pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa. Yn y dyfodol, mae angen mwy o fuddsoddiad mewn staff a hyfforddiant ac i gynorthwyo gweithwyr y GIG.

134. Mae'n hanfodol bod cyflwyno'r brechlyn yn parhau ar garlam ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd cyllid a ddarperir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y rhaglen frechu ac ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch tryloywder cyllid ar gyfer y rhaglen frechu sy'n cynnwys cyfuniad o arian Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried tryloywder yr wybodaeth mae'n ei darparu ar y rhaglen frechu er mwyn galluogi craffu ar gost ei chyflawni.

135. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effaith y pandemig ar ofal nad yw'n ofal COVID a phryderon Conffederasiwn GIG Cymru y bydd y costau i alluogi gwasanaethau i

ddod atynt eu hunain yn sylweddol ac o bosibl yn her yr un mor fawr â COVID ei hun.

136. Mae'r Gweinidog Iechyd yn cydnabod y bydd costau dynol ac ariannol yn sgil oedi gofal nad yw'n gysylltiedig â COVID, ac er bod disgwyl y bydd cynnydd mewn gofal nad yw'n ofal COVID dros y flwyddyn nesaf, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd pwysau o hyd ar y GIG a gweithwyr gofal iechyd oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol a'r nifer is o staff ar wardiau.

137. Mae'r Pwyllgor yn pryderu wrth nodi canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant. Mae'r Pwyllgor yn croesawu barn y Gweinidog y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn sylweddol dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y mesurau sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw gyllid iechyd ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei ddyrannu'n effeithlon, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut bydd y cyllid ychwanegol o £385 miliwn ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG yn cael ei ddefnyddio. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad i ddangos faint sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y dyfarniad cyflog i staff a gwasanaethau eraill, fel yr arian a fwriadwyd i ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol - er enghraifft, i fynd i'r afael â chynnydd mewn amseroedd aros oherwydd y pandemig.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r dyraniadau cyllideb drafft yn mynd i'r afael â'r materion cyfredol mae'r GIG yn eu hwynebu o ran nifer a gallu staff, yn ogystal â'r rhai mae'n debygol o'u profi o ystyried effaith barhaus y pandemig ar ei weithlu.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer mwy o fuddsoddi mewn staff a hyfforddiant i gynorthwyo gweithwyr y GIG.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am y rhaglen frechu, gan wahaniaethu rhwng y costau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt a'r rhai y darperir ar eu cyfer yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut bydd y dyraniadau ar gyfer iechedd meddwl yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag argaeledd cymorth.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth fynd i'r afael â'r lefelau uwch o afiechedd meddwl sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddsoddi'n digwydd mewn mesurau ataliol sy'n ystyried penderfyniadau ehangach iechedd meddwl, fel sgiliau a chyflogadwyedd, addysg, tai, mynediad at fannau gwyrdd a gweithgarwch corfforol.

Llywodraeth Leol

Cyllid Llywodraeth Leol

138. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu blaenoriaethu yn y dyraniadau a'i bod hi wedi rhoi'r setliad 'gorau posibl' i awdurdodau lleol gyda chodiad o £176 miliwn.⁷⁵

139. Croesawodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr arian ychwanegol a ddarparwyd yn y Gyllideb Ddrafft, a oedd yn adlewyrchu £172 miliwn (neu 3.8 y cant) ychwanegol mewn cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol o'i gymharu â 2020-21 (ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau i mewn).⁷⁶

140. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er bod 17 awdurdod lleol o fewn 0.5 y cant o'r cyfartaledd o 3.8 y cant, byddai dau awdurdod lleol yn derbyn cynnydd o lai na 3 y cant (Wrecsam a Cheredigion).⁷⁷ Dywedodd fod arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog ar 11 Rhagfyr 2020 i ofyn am gyllid gwaelodol, gan ychwanegu:

"I think when the Minister published the settlement, she made clear why she wasn't putting that floor in, but we still think that there is a discussion to be had there. There's an open door and I think we'll still press for a floor in the settlement uplifts."⁷⁸

141. Dywedodd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau:

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 8

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 97

⁷⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 101

⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 101

“we’ll continue to campaign and to lobby for a separately funded floor within the settlement, to try and provide certainty to those councils that are at one end of the spectrum, especially at a time when there’s so much uncertainty elsewhere in our budgets.”⁷⁹

142. Ychwanegodd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

“I think the range this time should be considered by Members of the Senedd in terms of the range of the settlement provided to local authorities. I’m not sure it’s usually that wide; I think it goes from a 2 per cent increase up to 5.6 per cent. A number of local authorities are around the average, which is understandable. But I think the funding floor would help to create what may look like a fairer settlement for all, if that funding floor was provided, and again, just to mitigate that range, with those right at the bottom having to, in a very short space of time, understand how it’s going to impact their budget planning.”⁸⁰

143. Nododd y Gweinidog fod y setliad wedi cael ei groesawu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ond dywedodd nad oedd hynny’n diystyru’r ffaith bod awdurdodau lleol dan bwysau mawr ac yn parhau i orfod gwneud penderfyniadau anodd.⁸¹

144. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi hefyd wedi ymateb i effaith negyddol y pandemig ar gasglu ardrethi annomestig wrth osod y setliad cyffredinol.⁸² Aeth ymlaen i ddweud:

“the baseline settlement cash increase of £176 million does reflect a larger increase in the revenue support grant to compensate for the fall in NDR. It also accounts for the impact of freezing the NDR multiplier for next year as well. It’s important to recognise that this settlement isn’t the only source of funding for local authorities; they also have council tax and fees and charges, which they can also raise income from. But, as I say, these are difficult decisions.”⁸³

⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 22

⁸⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 24

⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 64

⁸² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 65

⁸³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 65

145. Cydnabu'r Gweinidog y pwysau ar awdurdodau lleol o ran y cynllun i leihau'r dreth gyngor a chyfradd casglu is y dreth gyngor, a dywedodd bod trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau er mwyn monitro'r effaith ariannol.⁸⁴

146. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Er bod rhywfaint o rwystredigaeth gyda'r broses hawlio, roedd awdurdodau lleol wedi derbyn cyllid ychwanegol i dalu eu costau ychwanegol oherwydd COVID-19 ac wedi cael iawndal am golli incwm o ganlyniad i hynny.⁸⁵

147. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"I don't think we're too worried about funding services this year because, as I said, that COVID fund, that is now a fund of about, I think the total is about £557 million, of which there is still about £255 million remaining in the budget. There are still claims for quarter 3, both in terms of additional pressure and income loss to go in, so that's fine..."⁸⁶

148. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd ynghylch cyllid COVID yn 2021-22. Sicrhawyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai'n cael ei drafod â Llywodraeth Cymru cyn bo hir ac y byddai'r mater yn cael sylw yn y cyhoeddiad terfynol am y gyllideb.⁸⁷

149. Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd y byddai'r Setliad Dros Dro yn cwrdd â'r pwysau chwyddiant yr oedd yn ei ddisgwyl, ond na fyddai hynny'n cwmpasu'r holl bwysau costau, fel y rhai ar ofal cymdeithasol, gofal plant ac addysg. Bydd yn rhaid i'r pwysau hynny "syrthio ar y dreth gyngor".⁸⁸

150. Meintiolodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y pwysau o ran costau ar awdurdodau lleol yn £279 miliwn ar gyfer 2021-22, y gellir priodoli £174 miliwn (neu 63 y cant) o hynny i gostau'r gweithlu (gan gynnwys costau comisiynu gofal cymdeithasol). Nododd fod pwysau o ran y galw yn cyfrif am £72 miliwn, sydd yn

⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 66

⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraffau 121 a 123

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 126

⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 126

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 99

bennaf oherwydd gofal cymdeithasol, a phwysau eraill o £33 miliwn drwy chwyddiant.⁸⁹

151. Dywedodd y Gweinidog fod llywodraeth leol yn un o'r meysydd allweddol ar gyfer dyraniadau ychwanegol posibl rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.⁹⁰

Cyllido Gofal Cymdeithasol

152. O ran pwysau ar wasanaethau penodol, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod rhan eithaf sylweddol o'r gronfa caledi yn cael ei dyrannu ar gyfer gofal cymdeithasol. Dywedwyd wrthi bod darparwyr gofal cymdeithasol yn ystyried y cyllid hwn yn hanfodol er mwyn goroesi⁹¹. Bu galwadau am ryw fath o gyllid pontio i'r flwyddyn nesaf.⁹²

153. Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, dywedodd y Gweinidog:

"We were able to put in place the £500 million—at least £500 million—of additional support for local authorities, and that's been really instrumental in meeting some of the challenges that local authorities are facing in terms of social care provision locally. We have, of course, had the national uplift in rates to meet the additional costs for in-house and commissioned adult social care provision across domiciliary care, residential care and supported living, and local authorities, of course, have been able to access additional funding through the hardship fund to provide some market stability in terms of voids and other exceptional, unpredictable or emergency experiences that the social care sector has been facing as well. That fund has been well utilised and is still there for local authorities through the end of this financial year. But, as I say, we're considering how best to meet these additional needs next year."⁹³

Dyfarniad Cyflog y Sector Cyhoeddus

154. Mewn llythyr at Arweinwyr Cyngorau yng Nghymru ynghylch Setliadau Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2021-22, nododd y

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 66

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 154

⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraffau 131 a 154

⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 68

Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol na dderbyniodd Llywodraeth Cymru unrhyw arian ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau tâl y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Dywedodd y byddai angen cynnwys goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021-22 felly o fewn cyllidebau llywodraeth leol.⁹⁴

155. Nid oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gallu meintoli'r effaith, ond dywedodd wrth y Pwyllgor beth bynnag fydd canlyniad unrhyw ddyfarniad cyflog, bydd yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau. Cost tâl i athrawon a'r staff hynny ar delerau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol oedd £3.8 biliwn, ac felly amcangyfrifwyd bod pob cynnydd o 1 y cant yn costio £38 miliwn.⁹⁵ Ychwanegodd y Cymdeithas:

"The pay increase this year was around about 2.75 per cent ...In our own assessment of pressures for 2021-22 we actually just rolled over the assumptions for this year. Now, if that doesn't transpire, obviously, our assessment of pressures is going to be a lot lower than what we'd assessed prior to Christmas. So, big figures involved there."⁹⁶

156. Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd fod y mwyafrif o brif weithredwyr wedi tybio y byddai codiad o 2.5 y cant ar gyfer y rhai ar y lefelau incwm is yn unig; ni fyddai dyfarniad cyflog i athrawon a gweithwyr eraill. Er bod gan rai awdurdodau lleol falansau (neu gronfeydd wrth gefn) y gellid eu defnyddio i gyllido'r costau hyn, nid oedd gan eraill arian o'r fath, ac "maen nhw'n mynd i fod mewn sefyllfa dipyn mwy trafferthus na'r cynghorau sydd efo balansau".⁹⁷

Addysg

157. Nododd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd hefyd mai un o'r prif risgiau yn gysylltiedig â phlant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, oedd cael eu gadael ar ôl yn eu haddysg o ganlyniad i'r pandemig. Dywedodd:

"...buaswn i'n gobeithio y bydd yna adnoddau grantiau penodol yn dod drwy'r gyfundrefn inni fedru gwneud rhywbeth go iawn amdano fo. Fel arall, rydyn ni'n mynd i fod yn ei wneud o tra'n trio cynnal y gyfundrefn addysg ar yr un pryd. ...[rydyn] ni'n mynd i fod yn gweld plant yn disgyn

⁹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 22 Rhagfyr 2020

⁹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 165

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 167

⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 169

ar ei hôl hi, ac yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, achos os dŷch chi'n eu colli nhw yn y fan yna, dŷch chi'n eu colli nhw am byth. A dyma ydy'r broblem fawr.”⁹⁸

158. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n rhannu'r pryderon am ddysgwyr difreintiedig a bod hynny yn bryder gwirioneddol i'r Gweinidog Addysg hefyd.⁹⁹ Ychwanegodd:

“That’s why, in July, she announced an additional £29 million of funding to recruit, recover and raise standards in Welsh schools, in response to the impact of the pandemic. Of that funding, £12 million you’ll find in the draft budget for next year, and this was really about recruiting, I think I’m right in remembering, 700 [correction: around 700] full-time equivalent staff members to support children, particularly in years 7, 11, 12 and 13, and children with additional needs, to not slip back in their learning as a result of the pandemic. I know that local authorities are reporting really good recruitment and progress in that area already, so that’s something that we are maintaining through additional funding into next year’s budget.”¹⁰⁰

159. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gallu gwneud rhai dyraniadau yn ystod y flwyddyn, gyda'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi bron i £12 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer dyfeisiau, yn enwedig gliniaduron, i helpu dysgwyr difreintiedig.¹⁰¹

160. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a fyddai unrhyw arian ar gael i dalu costau ychwanegol 'dal i fyny' gydag addysg, yn enwedig i blant o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai yn y blynyddoedd cynnar. Dywedodd:

“I’m always having further discussions and bilaterals with all of my colleagues about what their future plans are, particularly in terms of recovery and reconstruction work, alongside the immediate response to the crisis. I do think the additional funding that we’ve announced for learner catch-up particularly is an important start in the process, but I know that the education Minister has undertaken some further work as

⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 193

⁹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 70

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 70

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 71

to how we can ensure that we respond to the very negative impact that the pandemic has had on young people and their learning.”¹⁰²

Barn y Pwyllgor

161. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog fod gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu blaenoriaethu yn y Gyllideb Ddrafft a bod awdurdodau lleol wedi cael y setliad gorau posibl. Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Gyllideb Ddrafft, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod arweinwyr y Gymdeithas wedi galw ar y Gweinidog i ddarparu cyllid gwaelodol.

162. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Gweinidog, wrth osod y setliad cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol, wedi ymateb i effaith negyddol y pandemig ar gasglu ardrethi annomestig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau ar awdurdodau lleol o ran cynllun lleihau'r dreth gyngor a chyfradd casglu is y dreth gyngor.

163. Mae clywed na fydd y cyllid cynyddol yn y setliad llywodraeth leol yn cwmpasu'r holl bwysau costau yn fater sy'n peri pryder i'r Pwyllgor, fel y pwysau ar ofal cymdeithasol, gofal plant ac addysg. Ar ben hynny, mae'n destun pryder clywed bod darparwyr gofal cymdeithasol wedi canfod bod cyllid a ddyfarnwyd drwy gronfa Caledi Awdurdodau Lleol ar gyfer 2020-21 yn hanfodol 'dim ond er mwyn goroesi' ac wedi galw am gyllid pontio i'r flwyddyn nesaf.

164. Ni chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw arian ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021-22 yn sylweddol ac y bydd angen eu cynnwys yng nghyllidebau llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn siomedig y bydd y pwysau cysylltiedig o ran costau yn disgyn ar lywodraeth leol o ystyried ymdrechion ei staff i ymateb i'r heriau yn ystod y pandemig.

165. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch y risgiau y bydd plant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai yn y blynyddoedd cynnar, ar ei hôl hi gyda'u haddysg o ganlyniad i'r pandemig. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am sut mae'r dyraniadau cyllid yn cynorthwyo 'dal i fyny' gan gyflawni'r ffyrdd cyfredol o ddysgu hefyd.

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 73

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol ac addysg yn cynorthwyo'r ffyrdd presennol o ddysgu ac yn darparu digon o adnoddau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y pandemig ar addysg, gan sicrhau nad yw pobl ifanc ar ei hôl hi.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fwriadwyd i'r cyllid ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol ategu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau presennol a pha gyllid ychwanegol a all fod ar gael y tu allan i'r setliad.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai cyllid gwaelodol ar gyfer llywodraeth leol yn y Gyllideb Derfynol yn addas.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o ystyriaeth y Gweinidog ynghylch dyraniadau pellach yn y Gyllideb Derfynol, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid pontio ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2021-22 fel bod darparwyr yn gallu talu'r costau ychwanegol parhaus a ddaw yn sgil darparu eu gwasanaethau yn ystod y pandemig.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y dyfarniad cyflog ar awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys yr effaith debygol ar eu sefyllfa ariannol a darparu gwasanaethau.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y gwaith pellach sy'n cael ei wneud ar effaith y pandemig ar addysg pan fydd ar gael.

5. Trawsnewid

Y GIG

166. Nodir yn y Gyllideb Ddrafft y bydd Llywodraeth Cymru yn “[p]arhau i fuddsoddi i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau iechydd gyda modelau gwasanaeth, technolegau, a thriniaethau newydd”.¹⁰³

167. Wrth nodi bod dull Llywodraeth Cymru o gyllido wedi bod o gymorth wrth gyflwyno rhai atebion digidol yn ystod y pandemig, amlygodd Conffederasiwn GIG Cymru bod ei hymateb i COVID-19 wedi creu angen i ailfeddwl yn radical a chyflymu’r ffordd mae’r gwasanaeth yn rhyngweithredu â chleifion ac yn darparu gofal. Dywedodd:

“There are future opportunities to accelerate the shift to data driven, value-based and locally delivered models of care. It is important that the Welsh Government’s investment priorities in 2021-22 include a significant digital aspect. This means safeguarding and developing the infrastructures that NHS Wales organisations have already developed nationally and locally, but also ensuring that transformations in patient pathways continue to support not only the COVID-19 recovery, but also the transition more generally to a healthier Wales.”¹⁰⁴

168. Adroddodd Conffederasiwn GIG Cymru fod cyflawni arbedion yn parhau i fod yn her, ac ar hyn o bryd roedd cyrff y GIG yn rhagweld na fyddant yn cyflawni cyfran sylweddol o arbedion cylchol a gynlluniwyd sydd eu hangen yn 2020-21 i wella’r sefyllfa sylfaenol. Nododd fod angen arbedion effeithlonrwydd pellach i helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gwasanaeth cymorth a gwelliannau ansawdd yn y dyfodol.¹⁰⁵

169. Wrth gydnabod nad yw’n dibynnu’n llwyr ar gyllid, dywedodd y Comisiynydd mai cydnabyddiaeth gyfyngedig iawn sydd yn y Gyllideb Ddrafft o gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru wrth arwain y ffordd a chymryd camau i sicrhau bod ffyrdd newydd cadarnhaol o weithio yn cael eu cynorthwyo i barhau. Nid yw hi o’r farn bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i atal a thrawsnewid er mwyn bodloni maint yr her iechydd cyhoeddus sydd o’n blaenau.¹⁰⁶

¹⁰³ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 17

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Conffederasiwn GIG Cymru

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: Conffederasiwn GIG Cymru

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru, Ionawr 2021

“Mae gwasanaethau'r GIG yn hanfodol ond ar hyn o bryd maen nhw'n defnyddio bron i hanner cyllideb Llywodraeth Cymru ... Bydd buddsoddi mewn meysydd eraill gan gynnwys awdurdodau lleol, yr amgylchedd, addysg a'r economi yn helpu i greu newid yn y system sy'n blaenoriaethu atal”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

170. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys £25 miliwn i ategu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn y GIG, £10 miliwn i lechyd Cyhoeddus Cymru a £30 miliwn ar gyfer gofal sylfaenol, gan gynnwys triniaethau newydd a thechnolegau newydd. Ychwanegodd:

“The role of good mental health in prevention is also well understood, so we're providing an additional £20 million [cywiriad: £42 miliwn] in the budget to increase mental health support across a range of areas, and also, really importantly, an additional [cywiriad: mae hyn yn cynnwys] £4 million to support the roll-out of CAMHS in the schools in-reach pilot across Wales. We want to expand that because of the importance of that low-level support for children's mental health. The way in which that promotes positive well-being is an important preventative step.”¹⁰⁷

171. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y buddsoddiad ychwanegol o £25 miliwn, i ategu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau, yn ddigonol i ymgorffori newidiadau gwirioneddol drawsnewidiol ar draws y GIG, o'i roi yng nghyd-destun cyllid cyfan y GIG yn 2021-22, sef £8.4 biliwn. Hoffai weld y cyllid hwn yn cael ei gynyddu ochr yn ochr â mwy o eglurder ar sut bydd y system iechyd ehangach yn ymgorffori ffyrdd newydd o weithio ac yn blaenoriaethu atal afiechyd. Ychwanegodd:

“In addition to tackling the increasing levels of mental ill health that are linked to the lockdowns, priority must be given to investment in the interventions that evidence shows will prevent mental ill health, including skills and employability, education, housing, access to green space and physical activity.”¹⁰⁸

Gwasanaethau cyhoeddus eraill

172. Adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd angen i lywodraeth leol barhau i yrru effeithlonrwydd yn ei gwasanaethau o ganlyniad i COVID-19.

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cyllid, 8 Ionawr 2021, paragraff 146 a 20 Ionawr 2021, paragraff 52

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae angen arbedion ar gyfer buddsoddi mewn “gwasanaethau rheng flaen, blaenoriaethau lleol a newid trawsnewidiol parhaol”. Nododd fod awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i ailfodelu gwasanaethau ond nad oedd ganddynt y gallu i wneud hynny. Dywedodd hefyd fod rhai arbedion a nodwyd ar gyfer 2020-21 “yn gymhleth ac yn seiliedig ar drawsnewid, sy’n golygu bod amheuaeth ynglŷn â phryd, ac os bydd y rhain yn digwydd bellach oherwydd yr angen i ymateb i’r argyfwng”.¹⁰⁹

173. Dywedodd y Gymdeithas wrth y Pwyllgor, er bod rhai o’r honiadau a wnaed ynghylch effeithlonrwydd a thrawsnewid yn y gorffennol wedi eu gorbwysleisio, ac mai’n anaml maent yn digwydd, mae rhan iddynt ei chwarae. Mae awdurdodau lleol yn dibynnu ar arbedion a gweithgareddau trawsnewidiol i helpu i bontio bylchau yn y gyllideb.¹¹⁰

174. Ychwanegodd y Gymdeithas fod angen i rai awdurdodau lleol ohirio eu cynlluniau arbedion, gan nodi anawsterau mawr eleni a’u bod wedi eu trosglwyddo i 2021-22.¹¹¹ Nododd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd:

“Mae’n debyg y broblem ydy nid gymaint efo’r Llywodraeth yn ein digolledu ni. Mae hwnnw i weld yn gweithio’n dda. Ein problem ni ydy efo pethau eraill dydyn ni ddim yn gallu eu gwneud, fath â ffeindio arbedion ac yn y blaen, achos rydym ni’n ‘concentrate-io’ cymaint ar y COVID ac yn y blaen.”¹¹²

“Hoffwn weld mwy o fuddsoddiad cychwynnol mewn iechyd ac addysg i helpu i fod yn gatalydd i ddiwylliant o ffyrdd iachach o fyw er mwyn lleihau straen ar y GIG yn y dyfodol a rhyddhau’r gyllideb yn y tymor hir.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

Barn y Pwyllgor

175. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd cydbwysu anghenion sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd, fel delio â’r pandemig uniongyrchol a sicrhau arbedion byrdymor sy’n ofynnol i wella’r sefyllfa ariannol a chynllunio ar gyfer trawsnewid tymor hwy. Fodd bynnag, mae’n amlwg mai dim ond drwy wahanol ffyrdd o weithio y bydd adferiad a chydnerthedd yn cael ei gyflawni yn y sector cyhoeddus,

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 185

¹¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 185

¹¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 124

a byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o fanylion am sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn targedu trawsnewid yn y sector cyhoeddus.

176. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r £25 miliwn a ddyrannwyd i newidiadau trawsnewidiol ar draws y GIG yn ddigonol, ac mae'n cytuno â'r Comisiynydd bod angen mwy o eglurder o ran sut bydd y system iechyd ehangach yn ymgorffori ffyrdd newydd o weithio ac yn blaenoriaethu atal afiechyd.

6. Yr Economi, sgiliau ac adfywio

“Addysg ac iechyd yw’r blaenoriaethau amlwg, ond mewn byd ôl-COVID, ôl-brexit, mae angen i Lywodraeth Cymru gyfeirio cyllid tuag at yr economi, os yw busnesau a swyddi Cymru am oroesi.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

177. Nodwyd yng Naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru fod y cronfeydd a ganlyn wedi eu dyrannu fel rhan o’r nod o ‘greu economi gynaliadwy’:

- Yn ychwanegol at y llinell sylfaen cyfalaf datblygu economaidd rhanbarthol a busnes gwerth £40 miliwn, cyfalaf trafodion ariannol pellach o £5 miliwn ar gyfer y Gronfa Ad-daladwy ar gyfer busnesau bach a chanolig o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi.
- Refeniw ychwanegol o £3 miliwn ar gyfer dull ‘Canol y Dref yn Gyntaf’ Llywodraeth Cymru a £1.4 miliwn o gyfalaf ar gyfer cynllun peilot sy’n cyd-fynd â’r dull hwn.
- £3 miliwn arall ar gyfer cronfa i ategu’r gwaith o ledaenu a graddio arferion da yn gyflym ar draws yr economi sylfaenol.
- £1.6 miliwn yn ychwanegol i ategu’r gwaith o gyflwyno’r Cynllun Allforio newydd.

178. Mae cyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth wedi dyblu fwy neu lai yn 2020-21 i oddeutu £3 biliwn, gyda dyraniadau sylweddol wedi eu rhoi i gynorthwyo busnesau drwy grantiau a’r system ardrethi busnes. Mae’r swm a ddyrennir yn y Gyllideb ddrafft, i bob pwrpas, yn dychwelyd i’r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Hyblygrwydd yn y Gyllideb

179. Teimlai Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru nad oedd y Gyllideb Ddrafft yn darparu dull cydlynol o gynorthwyo busnesau drwy’r pandemig:¹¹³ Dywedodd:

“...this draft budget is a little more of a draft than we’re used to seeing. There are more gaps in it. To a certain extent, a lot of the support for business is some of the parts where it’s not very clear where the pots of

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

funding will come and when they will come. There's more uncertainty there than anywhere else.”¹¹⁴

180. Fodd bynnag, nododd FSB Cymru ei bod yn ddoeth, o dan yr amgylchiadau, gadael rhywfaint o gwmpas i allu newid pethau tan fis Mawrth.¹¹⁵

181. Cytunodd Cynghair Twristiaeth Cymru ei bod yn bwysig iawn cael hyblygrwydd yn y gyllideb o ystyried yr ansicrwydd a bod angen lle i ymateb.¹¹⁶ Dywedodd ei bod yn anodd iawn llunio cyllideb gyda chymaint o newidiadau sylfaenol i'n ffordd o weithio a'n ffordd o fyw.¹¹⁷

182. Dywedodd y CBI:

“... there are a lot of businesses, clearly, not trading. Until they start coming out of that and trading, there almost needs to be a level of flexibility in what's required, simply to allow people to support those businesses, because the challenge is high numbers of their staff are on furlough, how quickly is business confidence going to return—you know, putting figures on things at the moment might be fairly difficult, because you don't know what sort of shape some of those businesses are in....There needs to be a figure, but, rather than pinpointing it in particular areas, it almost needs to be flexible to be able to react to what sort of shape the business is in after the pandemic, because we simply don't know at the moment, unfortunately.”¹¹⁸

183. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cael 'setliad cyfalaf anodd' sydd £130 miliwn yn llai ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf nag ar gyfer yr un flaenorol. Dywedodd fod hyn, ynghyd â chyfyngiadau benthyca Llywodraeth Cymru, wedi arwain at gyfyngiadau o ran yr hyn yr hoffai'r Llywodraeth ei wneud.¹¹⁹

184. Dywedodd y Gweinidog y gallai cyllid cyfalaf ychwanegol o'r gronfa ffyniant gyffredin, neu'r gronfa lefelu, ddod i Gymru o bosibl, ond nad oedd arwydd o unrhyw beth bryd hynny. Dywedodd y gallai Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth 2021 roi golwg lawer cliriach ar gyllid ychwanegol posibl ar

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 138

¹¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 138

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 146

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 273

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 208

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 99

gyfer cyfalaf, ac y gallai ddweud mwy am beth fyddai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru bryd hynny, o bosibl.¹²⁰

185. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

“We’ve talked at length, I think, in the Senedd Chamber about the mutual investment model, and the role that that’s playing in terms of the A465 scheme, which is very closely aligned to our Valleys taskforce objectives. On a smaller level, then, we do have some important allocations additionally this year in respect of regeneration—so, an additional £3 million to support our high streets and town centres, recognising their important economic role, and an additional allocation of £5 million to support the wider regeneration activities through the town-centre loans programme.”¹²¹

Cymorth i fusnesau

186. Pan ofynnwyd iddynt pa mor effeithiol fu’r pecynnau cymorth i fusnesau a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru o ran cynorthwyo busnesau Cymru yn ystod y pandemig, dywedodd FSB Cymru fod y ddarpariaeth wedi bod yn ‘dameidiog’. Ychwanegodd:

“We’ve been in constant engagement around where these gaps are during the course of the last year, and there are times when we’ve been able to successfully push for those gaps to be filled.”¹²²

187. Roedd FSB Cymru yn gobeithio:

“...the next package will be making continued discussions with the Welsh Government on filling the gaps, as it were, over the next period as well, including businesses that perhaps missed out on not just the support that is vitally needed for their survival, but also those that perhaps missed out on the business development grants in November, where that was first come, first served, and thrown in in 48 hours. While the survival aspect and the immediate support is important, I think that support over the coming—. We’re hoping for the next iteration of that to come in the next month or so, and it’s important to learn lessons from that and that we look at how that support is targeted and how it is

¹²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 100

¹²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 101

¹²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 153

done on merit, if you like, and how we make sure that as many businesses are able to put plans in place for the next few years, hopefully to enhance business growth as well.”¹²³

188. Rhoddodd y CBI glod i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig am ddarparu arian ar y cyflymder a welwyd.¹²⁴ Dywedodd fod y Banc Datblygu wedi bod yn fantais i Gymru, gan ychwanegu:

“It has enabled us to get money out the door in a far quicker fashion in some respects than maybe other parts of the UK, and maybe that hasn’t been picked up enough—huge credit to the Development Bank of Wales. There’s potential for them to be even more involved, going forward, and possibly directing some of the money through the Development Bank of Wales rather than through local government and possibly Welsh Government may mean that the money gets to businesses quicker than it has been doing.”¹²⁵

189. Mewn perthynas â’r Gronfa Cadernid Economaidd, amlygodd y CBI fod busnesau llai yn ei chael hi’n anoddach cael gafael ar yr arian, gan nad oes ganddyn nhw’r arbenigedd yn y sefydliad ar brydiau, felly mae achos yno dros symleiddio yn y dyfodol.¹²⁶

190. Dywedodd Cynghair Twristiaeth Cymru;

“if we’re looking at winners and losers here, the small operator, the sole trader, who really makes up the sense of place in Wales in the context of tourism, have been not disadvantaged, but the freelancers have not been able to access the money that other sectors have. So, that’s been a continual battle to try and get money through.”¹²⁷

191. Gofynnodd y Pwyllgor pa mor effeithiol oedd y berthynas waith rhwng Llywodraethau’r Deyrnas Unedig a Chymru wrth gyfathrebu polisïau a chymorth i fusnesau. Dywedodd y CBI fod y berthynas wedi bod yn ‘dameidiog’ ond mae’n

¹²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 155

¹²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 158

¹²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 159

¹²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 173

¹²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 175

debyg ei bod yn well nag y bu ers cryn amser ar hyn o bryd, a bod rhai arwyddion da bod rhywfaint o waith traws-Lywodraethol.¹²⁸

192. Aeth y CBI ymlaen i ddweud:

“The complexity of the whole situation’s been challenging for businesses throughout. I think, on occasions, the different approaches from the different Governments have really not been helpful here, and it’s just added to the levels of complexity. And, going back to the previous conversation, where we’re getting people accessing funds and suchlike, it’s a minefield anyway, and then, if you layer on another element of complexity, it makes it really tough for people.”¹²⁹

193. Cytunodd FSB Cymru fod cymhlethdodau o ran cael cymorth mor wahanol dros amser hir, a dywedodd fod llawer o’i weithredwyr yn brwydro i lywio’r dirwedd.¹³⁰

194. Nid oedd FSB Cymru yn teimlo bod y Gyllideb Ddrafft yn darparu digon o gymorth i bobl hunangyflogedig. Ychwanegodd:

“while it’s not there at the moment, I think it is important that, when we look at the reconstruction and recovery plan, we start looking as well at the economic development side of it a little, have a little more focus on that, because, as we come out of the pandemic, those are going to become more and more important to us as we go on. And I think the role of the self-employed in that respect is going to be important. The role of pushing entrepreneurship is going to be vitally important. So, I think that side of things needs to be addressed more clearly between now and March.”¹³¹

195. Cadarnhaodd y Gweinidog fod tua £2 biliwn o gymorth ychwanegol wedi ei ddarparu i gadw cymaint â phosibl o fusnesau i fynd a chadw cymaint â phosibl o swyddi drwy’r pandemig. Amlygodd y bydd y modd mae cymdeithas wedi newid yn cynnig heriau a chyfleoedd i fusnesau.¹³²

196. Esboniodd y Gweinidog:

¹²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 182

¹²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 182

¹³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 190

¹³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 194

¹³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 104

“In terms of town centres, though, and increasing and continuing that footfall to support those businesses in town-centre areas, we’re very much focused on housing-led regeneration within town centres. Mike and I are both here in Swansea, and we’ve seen some good examples of that transforming High Street in Swansea, working alongside the social landlords to do that. We’re also providing funding through this budget for the Transforming Towns initiative, which is looking at co-location working hubs, particularly in regard to a number of areas across Wales, and when we have some more information on those co-location hubs.”¹³³

Yr economi sylfaenol

197. Croesawodd FSB Cymru fwy o arian i’r economi sylfaenol. Dywedodd ei bod yn bwysig nad ydym yn edrych ar brosiectau mawr, trawiadol yn unig fel ffordd o ddod drwy’r pandemig hwn a bod gan yr economi sylfaenol ei lle yn y broses hon. Dywedodd FSB Cymru:

“It’s important that the foundational economy also looks at small businesses, I think. The move towards what we call the ‘shift’, therefore, to have that foundation of small businesses that are medium sized rather than small, and that’ll be our focus, and trying to get the vision in the Senedd for our economy over the next five years to fit with that. We do welcome this, of course, but the £3 million is one small factor here—similar, also, to towns and the other pieces of this budget. It’s the same kind of message, therefore: we’re very pleased about them, but there will need to be a greater vision for them over the next five years.”¹³⁴

Cyflogaeth a datblygu sgiliau

198. Dywed y Comisiynydd, yn ogystal â’r effeithiau cyflogaeth a ragwelir yn sgil y dirwasgiad, y gallai’r argyfwng newid yr economi yn barhaol, gyda newidiadau sylfaenol mewn patrymau gweithio, ymddygiadau a newidiadau yn y farchnad lafur.¹³⁵

199. Aiff y Comisiynydd ymlaen i nodi mai maes allweddol ar gyfer buddsoddi yw sgiliau a chyflogadwyedd, sy’n gorfod bod yn sail i adferiad Cymru o’r pandemig. Mae hi o’r farn bod cyfle penodol i’r Llywodraeth wneud cysylltiadau â’r

¹³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 104

¹³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 262

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

argyfyngau hinsawdd a natur a buddsoddi mewn datblygu sgiliau mewn sectorau y dangosir eu bod yn creu swyddi'n sylweddol ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn.¹³⁶

200. Pwysleisiodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd fod datblygu sgiliau yn bwysig, gan ddweud:

"So, the types of jobs that will replace some of those that are lost might differ, might require different skills, might be even in different places. So, thinking about active labour market policies, policies to support areas that are struggling to recover from the crisis, policies to improve education and retraining and so on and so forth, I think they're going to be really important for the recovery from the crisis and not just Welsh people's livelihoods."¹³⁷

201. Mae'r Comisiynydd yn codi pryderon nad yw'r dyraniadau a nodir yn y Gyllideb Ddrafft yn ddigonol i gadw i fyny â'r galw cynyddol a'r farchnad lafur sy'n newid yn gyflym, yn enwedig gyda'r cynllun ffyrlo yn dod i ben.¹³⁸

202. Mae'r Comisiynydd yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ystyried sut gall warantu mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer economi di-garbon, yn enwedig drwy wella mynediad at sectorau sydd mewn sefyllfa dda ar gyfer adferiad gwyrdd. Dywedodd hefyd y dylid adolygu rhaglenni i sicrhau eu bod wedi eu cynllunio ar gyfer y cyd-destun presennol – hynny yw, cynorthwyo gweithwyr i ymuno â sectorau fel gofal a'r trawsnewidiad di-garbon lle disgwylir twf sylweddol mewn swyddi.¹³⁹

203. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Comisiynydd bod y dyraniadau a nodir yn y Gyllideb Ddrafft yn annigonol i gadw i fyny â galw cynyddol a marchnad lafur sy'n newid yn gyflym, cytunodd y Gweinidog fod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Ychwanegodd:

"which is why, through this financial year, we've made additional funding—the £40 million package I have in mind—regarding the support for employability that we announced earlier on in the year, and some of that was specifically in relation to apprenticeships. So, I'm keen to explore what more we can do, potentially, through the COVID-

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 248

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

related funding in that field between the draft and the final budget, and I'm having some further discussions with Ken Skates in that regard. So, this is, as I say, an area where I recognise that there's important further work to be done, and I hope to say something at the final budget on that."¹⁴⁰

204. O ran sgiliau a chyflogaeth, dywedodd y Gweinidog fod cynllun ailadeiladu Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddarn gwerthfawr o waith. Aeth ymlaen i ddweud:

"So, the plan itself is the product of more than 2,000 responses that we had to our consultation round-tables, which the Counsel General undertook with Wales-wide and international leading experts and thinkers in this kind of area, and also the work that has been undertaken across Government as well. So, I think that it is an important building block, really, for the recovery. Its immediate plan, though, was to guide the additional funding we provided—that additional £320 million of reconstruction funding—so that we were in a good place to start the recovery."¹⁴¹

Effaith COVID-19

205. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi cynnal dadansoddiad daearyddol o'r pandemig mewn perthynas â gwariant gan aelwydydd (Rhagfyr 2020). Nodir yn y dadansoddiad hwn, er bod rhai ardaloedd yn Lloegr yn parhau i weld adferiad (ar adeg ysgrifennu'r dadansoddiad), roedd Cymru a'r Alban, yn y cydestun hwn, wedi adfer eu sefyllfaoedd yn fras i'w lefelau cyn yr argyfwng (er y gallai hyn adlewyrchu'n rhannol y gwahanol fathau o gyfyngiadau symud a gafwyd yn ystod y cyfnodau a ddadansoddwyd).¹⁴²

206. Esboniodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod hyn yn rhannol yn adlewyrchu newid yn ymddygiad defnyddwyr ac nad oedd llawer o'r gwariant yn mynd i'r economi leol, ond yn hytrach i fanwerthwyr a darparwyr gwasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, nododd hefyd ei bod yn anodd gwybod am ba hyd y bydd y tueddiadau hyn mewn ymddygiad defnyddwyr yn parhau.¹⁴³

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 145

¹⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 93

¹⁴² Sefydliad Astudiaethau Cyllid: Geographic analysis of the pandemic on household spending

¹⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 252

207. Dywedodd y Comisiynydd hefyd y dylai buddsoddiad yng nghanol trefi a dinasoedd elwa ar gynifer o'r nodau llesiant â phosibl - er enghraifft, annog gweithio o bell, cynnwys y sector diwylliant a'r posibilrwydd y gall greu seilwaith gwyrdd.¹⁴⁴

Cysylltedd Digidol

208. Dywedodd y Gweinidog, er mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am delathrebu ac nad yw Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian yn ei setliad yn hynny o beth, mae tua 70,000 o adeiladau yng Nghymru yn methu â chyrchu cyflymderau band eang cyflym iawn. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gydnabod band eang fel gwasanaeth cyffredinol, ac mae'n amcangyfrif y byddai cost galluogi'r holl eiddo hynny rhwng £91 miliwn a £238 miliwn.¹⁴⁵

209. Dywedodd FSB Cymru ei bod yn bwysig bod Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion yn ymwneud â band eang. Ychwanegodd:

"We wrote a report on infrastructure and in particular the governance and the decision-making process around that. We'd called for a statutory role for the National Infrastructure Commission for Wales. We called for it to be beefed up and for it to do its role around independent evidence of being a non-governmental body that is able to provide for long-term planning across successive Governments, because it could get buy-in across the piece."¹⁴⁶

210. Cred y Comisiynydd fod cysylltedd digidol wedi dod yn gynyddol bwysig wrth alluogi ffyrdd newydd o weithio, gan ategu llesiant cymdeithasol ac economaidd dros y 12 mis diwethaf. Dywedodd:

"...there is a need for Government to take a holistic and multi-sectoral approach to expanding digital connectivity, recognising the key role that digital technologies play in relation to work, health, education and other areas of public service delivery, whilst also avoiding any worsening of inequalities."¹⁴⁷

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 177

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 271

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

211. Aeth y Comisiynydd ymlaen i argymhell:

“in 2021-22 Government invest in a universal basic digital infrastructure, giving every community access to high-quality broadband, targeting funding for broadband in communities which have been hit hardest by the pandemic and currently have the poorest connectivity and expand the offer for all schools in our communities to provide an appropriate digital device for every child and young person in education.”¹⁴⁸

212. Dywedodd y CBI fod pawb wedi synnu ar yr ochr orau pa mor dda mae'r seilwaith digidol wedi ymdopi yn ystod y pandemig, ond mewn rhai ardaloedd mae wedi bod yn her go iawn i bobl, a bod angen gwario mwy yn y maes hwn.¹⁴⁹

213. Galwodd Cyng rhair Twristiaeth Cymru hefyd am ragor o hyfforddiant mewn sgiliau digidol. Mae llawer o berchnogion busnes dan anfantais oherwydd eu cymhwysedd digidol cyfyngedig ac yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth sy'n cael ei ddarparu. Mae hwn yn angen penodol yn yr economi sylfaenol ac ar gyfer gweithredwyr bach yn y sector twristiaeth.¹⁵⁰

214. Cadarnhaodd y Gweinidog fod £4.9 miliwn o gyllid newydd wedi ei roi ar waith ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Dywedodd fod y ganolfan yn edrych yn benodol ar sut gellir trawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy ddefnyddio gwasanaethau digidol, a'i fod yn fuddsoddiad amserol iawn.¹⁵¹

215. Nodir yn y naratif ar y Gyllideb Drafft bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.8 miliwn yn ychwanegol mewn Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i £11.5 miliwn yn 2021-22.¹⁵² Ychwanegodd y Gweinidog:

“That will provide connectivity and digital services to the public service in Wales, and will enable greater mobility of working from people who are working in the Welsh public services. So, that's an example of where

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraffau 267 a 269

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 259

¹⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 109

¹⁵² Naratif y Gyllideb Ddrafft, paragraff 6.98

we're providing opportunities for more agile working in response to the pandemic."¹⁵³

Barn y Pwyllgor

216. Mae'r Pwyllgor yn siomedig wrth glywed bod rhanddeiliaid o'r farn nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn darparu dull cydlynol o gynorthwyo busnesau drwy'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi, o ystyried ansicrwydd y pandemig, gyda llawer o fusnesau yn dal i beidio â masnachu ac ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd hyder mewn busnesau'n dychwelyd, ei bod yn synhwyrol caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd.

217. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn £130 miliwn yn llai mewn cyllid cyfalaf ar gyfer 2021-22 o'i gymharu â 2020-21. Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn ansicr a all Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddyrannu mwy o arian yn dilyn ei chyhoeddiad ar y Gyllideb ar 3 Mawrth 2021.

218. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd ymateb i'r pandemig yn dal i dra-arglwyddiaethu ar weithgareddau 2021-22, ond mae'n obeithiol y bydd modd newid i ganolbwyntio ar adferiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn pryderu fod cynllun ailadeiladu Llywodraeth Cymru yn brin o uchelgais o ran polisi a dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft hon.

219. Mae'r Pwyllgor yn pryderu wrth glywed tystiolaeth bod gweithredu'r pecynnau cymorth busnes wedi bod yn 'anghyson', gyda busnesau llai yn ei chael hi'n anoddach cael gafael ar arian. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan y gwahanol ymagweddau at gymorth busnes gan wahanol Lywodraethau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen symleiddio'r broses yn y dyfodol ac mae angen cynyddu cyfathrebu am y cymorth sydd ar gael er mwyn osgoi dryswch o'r fath yn y dyfodol.

220. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn darparu mwy o gymorth i weithwyr hunangyflogedig a gweithwyr ar eu liwt eu hunain. Mae lle hefyd i'r Gyllideb Ddrafft fod yn gliriach yn ymagwedd hirdymor Llywodraeth Cymru at ddelio â newidiadau posibl yn ymddygiad defnyddwyr tuag at fanwerthwyr ar-lein a'r effaith y gallai hyn ei chael ar economïau lleol. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru ailfeddwl am bolisiau blaenorol ar adfywio canol trefi yng ngoleuni'r pandemig.

¹⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 119

221. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn, yn ogystal â'r effeithiau cyflogaeth a ragwelir yn y dirwasgiad, y gallai'r argyfwng newid yr economi yn barhaol, gyda newidiadau sylfaenol mewn patrymau gweithio, ymddygiadau a sifftiau yn y farchnad lafur. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio manteisio ar y cyfleoedd a allai godi oherwydd hyn. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod buddsoddi mewn sgiliau a chyflogadwyedd yn hanfodol ar gyfer adferiad Cymru yn sgil y pandemig.

222. Mae cysylltedd digidol wedi dod yn fwyfwy hanfodol wrth alluogi ffyrdd newydd o weithio drwy'r pandemig. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am delathrebu, mae'n pryderu nad yw tua 70,000 o adeiladau yng Nghymru yn gallu cyrchu band eang cyflym iawn.

223. Clywodd y Pwyllgor pa mor bwysig y bu'r seilwaith digidol a chymhwysedd digidol yn ystod y pandemig, ond mae'n nodi bod angen gwneud mwy yn y meysydd hyn, yn enwedig i sicrhau cysondeb a mynediad ledled Cymru. Cred y Pwyllgor fod angen gwneud mwy i ategu hyfforddiant mewn sgiliau digidol ar gyfer busnesau ac unigolion, yn enwedig yn yr economi sylfaenol.

224. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru elwa ar newidiadau mewn arferion gwaith a chynorthwyo 'esblygiad' canol trefi. Yn benodol, sut mae gwariant Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r symud i weithio o bell a'r potensial ar gyfer hybiau gweithio o bell.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cynllun ailadeiladu Llywodraeth Cymru yn fwy uchelgeisiol o ran polisi a dyraniadau a'i fod yn cael sylw mwy sylweddol yn y Gyllideb Derfynol, a'r Gyllidebau Atodol dilynol.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'r rhaglenni adfywio presennol yn dal i gynrychioli'r gwerth gorau, ac yn ystyried yr angen i ganolbwyntio mwy ar gynorthwyo twf a buddsoddiad mewn sgiliau a chyflogadwyedd, yn enwedig o ran annog economi werdd gynaliadwy.

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i symleiddio'r broses ar gyfer cyrchu pecynnau cymorth busnes ac yn cynnig help a chyfeirio gwell ar gyfer busnesau llai, gan gynnwys ymagwedd "dim dewis anghywir" ar gyfer ymgeiswyr. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried adolygu'r dulliau cyfathrebu ar gyfer y cynlluniau hyn.

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r pandemig wedi newid, neu wedi cadarnhau, ei blaenoriaethau o ran cysylltedd digidol. Dylid tynnu sylw at newidiadau yn hyn o beth yn y Gyllideb Derfynol.

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar ganol trefi yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r pandemig (er enghraifft, gwneud y mwyaf o weithio gartref).

7. Newid hinsawdd a datgarboneiddio

“Wrth adfer yr economi ar ôl y coronafeirws, a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried newid hinsawdd a chynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwariant? Dylai 79 y cant Na ddylai 17 y cant Ansicr 4 y cant”

“Yr amgylchedd ac ynni yw un o'r meysydd sydd â'r gwariant isaf. Wrth i ni symud ymlaen mae'n hanfodol ein bod ni'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd ein cenedl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”

“Canolbwyntio ar drafnidiaeth werdd lân gan ei gwneud yn haws, yn rhatach, yn fwy diogel ac yn gyfleus cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a fydd eto'n dod â buddion iechyd ac yn lleihau'r baich ar wasanaethau iechyd o ran gofal sylfaenol, gan roi modd i ganolbwyntio mwy ar atal a llesiant.”

“Defnyddio'r amgylchedd ac ysgogi swyddi gwyrdd ac incwm i Lywodraeth Cymru drwy brosiectau seilwaith gwyrdd.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

225. Roedd Cyllideb 2020-21, y gyntaf gan Lywodraeth Cymru ers iddi ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019, yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £140 miliwn i ategu'r agenda datgarboneiddio. Mae mwyafrif y cyllid hwn wedi ei gynnal o fewn y llinellau sylfaen adrannol yn y Gyllideb Ddrafft hon, gyda swm ychwanegol o tua £80 miliwn ar gael i gynorthwyo gweithgareddau sy'n hyrwyddo datgarboneiddio ac yn gwella bioamrywiaeth.¹⁵⁴

226. Mae'r Gyllideb ddrafft yn amlinellu'r meysydd craidd mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt yng nghyd-destun 'adeiladu dyfodol mwy gwyrdd', gan gynnwys: tai, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac ail-fuddsoddi mewn canol trefi.¹⁵⁵

227. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn eiriol dros gynllun adferiad economaidd sy'n blaenoriaethu 'adferiad gwyrdd' yn sgil COVID-19, gan nodi nad oes modd cael adferiad economaidd heb adferiad natur. Er mwyn helpu sefydliadau

¹⁵⁴ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 3

¹⁵⁵ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 3

anllywodraethol amgylcheddol i oroesi a pharhau â'u gwaith, mae Cyswllt Amgylcheddol Cymru yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru:

- Gynnig hyblygrwydd ychwanegol ar grantiau presennol fel bod modd cyflawni prosiectau amgylcheddol;
- Talu cyllid grant ar gyfer gwaith a wnaed yn barod ac ymdrin ag oedi wrth asesu hawliadau;
- Ailagor neu gyflymu agor cronfeydd newydd a ddisgwyld fel rhan o'r agenda Twf Amgylcheddol;
- Darparu cyllid craidd gwarantedig ar gyfer sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol;
- Adlinio sut mae cyllid yn cael ei weithredu drwy 'gydnabod ein bod yng ngafael argyfyngau hinsawdd a natur' a chynyddu buddsoddiad hirdymor mewn adfer natur, drwy grantiau refeniw a chyfalaf.¹⁵⁶

228. Noda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni bod Cymru mewn 'sefyllfa dda' i fanteisio ar nifer o gyfleoedd adfer gwyrdd dros y 18 mis nesaf, ac mae'n galw am fuddsoddi mewn trafnidiaeth lân ac ynni gwyrdd, gan gynnwys technolegau pŵer gwynt, pŵer llanw a phŵer tonnau.¹⁵⁷

229. Galwodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil am ddigon yn y gyllideb i ategu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2050, ynghyd â buddsoddiad pellach mewn ffurfiau cynaliadwy o ynni.¹⁵⁸

230. Mae WWF Cymru o blaid creu rhaglen swyddi a sgiliau gwyrdd, gan ganolbwyntio ar drosglwyddo i economi werdd a fydd yn lliniaru'r risg o sioc economaidd yn y dyfodol ac yn fwy gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Noda os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau adferiad gwyrdd a chyfiawn yn sgil COVID, yna bydd yn hanfodol bod mwy o adnoddau'n cael eu neilltuo i natur a'r hinsawdd.¹⁵⁹

231. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn awgrymu y dylai'r gyllideb gynnwys costïadau llawn ar gyfer mentrau atal gwastraff newydd, ynghyd â chyllid i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd yn eu holl benderfyniadau ariannol a pholisi

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

¹⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Sefydliad y Peirianwyr Sifil

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: WWF Cymru

yn y dyfodol a wneir yn y flwyddyn nesaf, ar draws pob portffolio, gyda'r bwriad o roi natur yng Nghymru ar y 'llwybr at gydnerthedd'. Mae hefyd yn pwysu am 'Gynllun Adferiad Glas', gyda mwy o arian ar gyfer rheoli morol a chymorth i gyflawni ymrwymadau polisi ar safonau amgylcheddol a morol.¹⁶⁰

232. O ran sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn darparu cymorth i fusnesau addasu i newid yn yr hinsawdd, cydnabu FSB Cymru ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer datgarboneiddio a throi ardaloedd tai a phreswyl yn fwy gwyrdd, ac awgrymodd y gallai Llywodraeth Cymru edrych ymhellach ar y mentrau hynny ar gyfer y sector preifat.¹⁶¹

233. Nododd y Comisiynydd fod cyngor gan Bwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid Hinsawdd (UKCC) i Lywodraeth Cymru¹⁶² yn awgrymu y gall (ac y dylai) mwyafrif y buddsoddiad gael ei gyflawni gan y sector preifat. Fodd bynnag, aeth y Comisiynydd ymlaen i ddweud y bydd cyflawni hyn yn gofyn am bolisiâu cefnogol wedi eu llunio i roi eglurder hirdymor i ddefnyddwyr a hyder i fuddsoddwyr¹⁶³.

234. Nododd FSB Cymru hefyd y buddsoddiad mewn ceir trydan ac, er ei fod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at gynnydd yn y ffafriaeth tuag at deithio mewn car, cwestiynodd a fyddai hynny'n parhau i fod yn wir dros amser.¹⁶⁴

235. Cydnabu Cynghair Twristiaeth Cymru effaith newidiadau mewn ymddygiadau oherwydd mesurau COVID-19:

"...when we look at maybe the eight priorities that the Welsh Government have for an economic reconstruction, I fully buy in to those priorities, like climate change, decarbonisation and everything else, but this pandemic has really thrown a spanner in the works in the sense that, if we take transport, for example, it's now the safest way to travel to go in a car. So, all the hard work we've done on public transport, to get people on public transport, is now way down the road."¹⁶⁵

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

¹⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 245

¹⁶² [UKCC Advice Report: The path to a Net Zero Wales](#)

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ionawr 2021

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 246

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 219

236. Pan ofynnwyd sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cynorthwyo adferiad gwyrdd, dywedodd y Gweinidog fod y cyllid cyfalaf ychwanegol yng nghyllideb 2020-21 yn ‘gam pwysig ymlaen’, gan ychwanegu:

“...we’ve managed to maintain the vast majority of that additional £140 million funding in next year’s budget, but on top of that put in place a further £80 million of capital to deliver interventions to promote decarbonisation and biodiversity, alongside an additional £17 million of revenue funding as well. Some of that funding, for example, is in terms of active travel, bringing our annual funding next year up to £50 million, which is a huge increase on where we were at the start of this Senedd term.”¹⁶⁶

237. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at £6 miliwn o arian cyfalaf ychwanegol i gyflawni’r cyfleoedd effeithlonrwydd ynni a fydd yn cael eu nodi yng nghynllun cyflawni strategol datgarboneiddio’r GIG sy’n cael ei ddatblygu gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, ac amlygodd ddyraniadau i leihau ôl troed carbon Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, yn ogystal â chyllid tuag at y prosiect peilot sero-net ar gyfer ysgolion.¹⁶⁷

238. O ran sicrhau bod cyllid ar gael ar draws yr holl bortffolios i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, cyfeiriodd y Gweinidog at yr is-bwyllgor Cabinet traws-weinidogol ar ddatgarboneiddio:

“...that is very much the governance framework that holds departments to account to one another, but also works together, then, to address issues of common concern and is an opportunity, really, for us all to reflect on the fact that each of us has responsibilities in the area of decarbonisation that we need to deliver on, and it’s not purely in the purview of the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs.”¹⁶⁸

239. Cyfeiriodd hefyd at waith y grwpiau gweinidogol ar asedau, digidol a data a’r grŵp rhyng-weinidogol ar dalu am ofal cymdeithasol fel enghreifftiau o gydweithio ar draws y llywodraeth.¹⁶⁹

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 122

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 123

¹⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 129

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 130

240. Nododd swyddog y Gweinidog y bydd datgarboneiddio yn nodwedd allweddol yn iteriad nesaf Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru.¹⁷⁰

Effeithiau gwariant Llywodraeth Cymru ar nwyon tŷ gwydr

241. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2020-21:

“...bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dealltwriaeth o effaith y gyllideb ar garbon a'i phenderfyniadau gwariant, ac yn edrych ar sut y gall ddangos yn ystyrllon effaith cyllidebau'r dyfodol ar garbon.”¹⁷¹

242. Esbonnir yn adroddiad y Prif Economegydd bod Llywodraeth Cymru wedi contractio Uned Ymchwil Economi Cymru i:

- Ceisio llunio amcangyfrif arbrofol/darluniadol o'r nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Chyllideb 2020/21, gan ddilyn cysyniadau, cwmpas a thechnegau sefydledig Llywodraeth yr Alban, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol;
- Galluogi defnyddwyr i ystyried senarios 'beth os'; lle gellid asesu canlyniadau darluniadol dewisiadau gwario gwahanol yn nhermau nwyon tŷ gwydr mewn amser real drwy symud gwariant rhwng gwahanol grwpiau gwariant;
- Adrodd ar faterion ystadegol, data ac amcangyfrif allweddol a allai, ar hyn o bryd, atal amcangyfrif cadarn a realistig o effeithiau gwariant Llywodraeth Cymru o ran nwyon tŷ gwydr rhag cael ei ddatblygu.¹⁷²

243. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys asesiad cychwynnol o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â dyraniadau'r adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2020-21. Nodir yn amcangyfrif cychwynnol Uned Ymchwil Economi Cymru:

“...[rydym] o'r farn bod gennym dipyn o ffordd i fynd cyn y bydd gennym bensaernïaeth ystadegol a modelu a allai adlewyrchu'n gadarn

¹⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 137

¹⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Ionawr 2020, Argymhelliad 15

¹⁷² Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

effeithiau nwyon tŷ gwydr gwariant Llywodraeth Cymru ar y 'byd go iawn'.”¹⁷³

244. Roedd y Comisiynydd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

“...assess the carbon impact of their spend, especially major capital spend, and publish details of the overall carbon impact of their budget and major investment and infrastructure decisions.”¹⁷⁴

245. Mewn perthynas â datblygu'r amcangyfrif cychwynnol o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr, dywedodd y Gweinidog:

“...at the draft budget, we provided an indicative assessment, based on last year's funding for the health and social care portfolio, to give us an idea of what was possible, and we intend to provide more detail on this year's budget alongside the final budget. So, that's been a really important and useful piece of work, but it also has shown the limitations of this kind of approach as well, because it does provide an estimation of the supplier emission associated with the goods and services that the Welsh Government purchases through its budget, but what it doesn't do, then, is go on to model the carbon emissions or the savings associated with the outcomes arising from this spending. I think that's something that could potentially be done at a more granular level on particular interventions within portfolios, rather than, necessarily, the whole Government budget, because, when we think about the Government budget as a whole, around half of it is related to pay, so, actually, if you wanted to go the full extrapolation of all of this, you would look at what individuals were spending their pay on, and what the impact was of that, just because such a large part of our Welsh Government budget relates to pay. I think there's certainly more that we can do to improve our understanding of carbon impacts, but we've made, I think, good progress this year.”¹⁷⁵

Barn y Pwyllgor

246. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r buddsoddiad cynyddol a'r enghreifftiau o ddyraniadau cyllid a amlinellwyd gan y Gweinidog, nid yw'n glir sut mae'r agenda newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio yn cael ei brif ffrydio yn y broses

¹⁷³ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ionawr 2021

¹⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 132

gyllidebol. Er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau, mae angen newid mwy systematig a thrawsnewidiol. Mae'r gyllideb yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a dylai gasglu tystiolaeth a phwysleisio sut mae gweithredoedd yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi a gwariant ac yn eu gyrru.

247. Mae'r Pwyllgor yn nodi cyllid cyfalaf ychwanegol sy'n adeiladu ar gyllid y llynedd. Fodd bynnag, nid yw'n glir ai parhad o bolisiau cyn-bandemig yn unig yw hwn, neu gyflymiad yng ngoleuni'r pandemig. Mae'n amlwg na all Llywodraeth Cymru barhau â pholisiau a gynlluniwyd o gyllideb 2020-21 yn unig, gydag effeithiau mesurau cysylltiedig â COVID-19 yn debygol o arwain at newidiadau cymdeithasol sylweddol yn y dyfodol. O fewn hynny, mae cyfleoedd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru geisio eu bachu. Hoffai'r Pwyllgor ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio asesu'r effeithiau byrdymor a hirdymor ar economi Cymru, a sut mae hyn yn dylanwadu ar ei dull o ddatgarboneiddio mewn amgylchedd ôl-bandemig. Os mai amcan Llywodraeth Cymru yw adeiladu economi werdd, rhaid i hyn beidio â bod yn ymylol i gynlluniau adfer Llywodraeth Cymru, ac mae angen iddi fod yn glir wrth ddangos ei huchelgeisiau yn y maes hwn, gan gynnwys yn iteriad nesaf y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

248. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ategu galwadau FSB Cymru ar i Lywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol wrth annog newid sylfaenol i ddatgarboneiddio y tu hwnt i'r sector cyhoeddus. Mae'n amlwg er mwyn cyflawni'r gweithgarwch gofynnol yn y maes hwn y bydd angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat weithio'n agos gyda'i gilydd.

249. Mae'r Pwyllgor yn croesawu datblygu amcangyfrif o allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn nodi bwriad y Gweinidog i ddarparu mwy o fanylion am hyn ochr yn ochr â chyhoeddi'r Gyllideb Derfynol. Er ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir, ac nad yw heriau ymgorffori'r ôl troed carbon yn y gyllideb yn cael eu tanamcangyfrif, mae'r Pwyllgor yn awyddus i'r gwaith hwn gael ei gyflymu.

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae wedi newid ei hagwedd tuag at wariant ar yr argyfwng hinsawdd yng ngoleuni'r pandemig a sut mae'n bwriadu cynnal yr hyblygrwydd i addasu i newidiadau ymddygiad wrth gyflawni ei hamcan o adeiladu 'dyfodol mwy gwyrdd'.

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu asesiad cynhwysfawr o effaith carbon ei

phenderfyniadau gwariant ac yn ystyried sut gall oresgyn y cyfyngiadau a nodwyd.

8. Deall anghydraddoldeb a chynnydd

“Gall pobl wneud cyfraniadau dilys i gymdeithas pan fydd ganddyn nhw le diogel i fyw, mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd. Dyma'r ffactorau y mae angen eu perffeithio cyn unrhyw beth arall”

“Rwy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref. Mae angen mwy o arian i ddarparu creffttau i bobl ifanc aros yng Nghymru yn hytrach na chwilio am waith mewn dinasoedd mawr. Mae angen eiddo fforddiadwy i ystafell wely ar gyfer pobl ifanc. Mae angen gwario mwy o arian ar wasanaethau cymorth sy'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu cyllido drwy Grant Cymorth Tai. Yn debyg i'r Gronfa Arloesi Ieuencid. Mae digartrefedd yn fater iechyd felly maen nhw'n mynd law yn llaw.”

Ymgysylltu digidol - Mehefin 2020

250. Yn ogystal â chanolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y gyllideb yn cael ei llywio gan ei blaenoriaethau cyffredinol ar ddiogelu iechyd a swyddi, adeiladu dyfodol mwy gwyrdd, a sbarduno newid ar gyfer Cymru fwy cyfartal a theg.¹⁷⁶

Anfantaïs ac anghydraddoldeb

251. Mae Sefydliad Bevan yn cynnig cyfres o gynigion ynghylch sut gallai cyllideb Llywodraeth Cymru sicrhau gostyngiad sylweddol mewn tlodi, yn unol â'r argymhellion a wnaed yn ei adroddiad, sef Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ddau syniad allweddol:

- System gwasanaethau hanfodol cyffredinol newydd, yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion sylfaenol pobl drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol a allai drawsnewid eu bywydau a'u rhagolygon; a
- System Fudd-daliadau gyfunol i Gymru ddisodli natur ddigyswllt bresennol cynlluniau datganoledig Cymru, gan wella'r cymorth i aelwydydd Cymru.¹⁷⁷

¹⁷⁶ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22

¹⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: Sefydliad Bevan

252. Mae Sefydliad Bevan yn eiriol dros:

- godiadau sylweddol i'r Grant Tai Cymdeithasol i gyllido'r gwaith o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn 2026;
- dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer 'cynllun dechrau yn yr ysgol' newydd, a fyddai'n ymgorffori'r polisiâu Prydau Ysgol am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion sydd ar waith ar hyn o bryd. Byddai gan y cynllun newydd gyllid ychwanegol i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael mynediad at y cymorth;
- ail-flaenoriaethu'r cyllid presennol sydd ar waith ar gyfer rhaglen 30 awr o ofal plant am ddim Llywodraeth Cymru, fel bod gofal plant yn cael ei ddarparu'n gyffredinol i bob plentyn dros 9 mis oed, waeth beth yw sail cyflogaeth eu rhieni;
- ailddyrannu cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol i Gronfa Argyfwng Cymru newydd, cynllun wedi ei seilio ar hawliau i gynorthwyo teuluoedd yn hytrach na'r dull dewisol cyfredol;
- cynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymdeithasol i sicrhau gwell mynediad.¹⁷⁸

253. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyfleoedd cyllidebol i gau anghydraddoldebau presennol drwy weithredu argymhellion o'i adroddiadau 'Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol' ac 'A yw Cymru'n Decach? (2018)'. Mae'r prif argymhellion yn cynnwys:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- rhoi cydraddoldeb wrth wraidd eu strategaethau adfer a buddsoddi;
- cyflawni ei ymrwymiad i ddod â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym erbyn 31 Mawrth 2021;
- sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hymgorffori yn yr ymateb parhaus i'r coronafeirws ac wrth gynllunio ar gyfer unrhyw godiad mewn cyfraddau heintio;

¹⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Sefydliad Bevan

- sicrhau bod dioddefwyr trais domestig yn cael amddiffyniad a chymorth priodol, waeth beth fo'u statws mewnfudo.¹⁷⁹

254. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio o'r newydd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel blaenoriaeth a sicrhau eu bod ar flaen y gad o ran polisi, gan sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ag adnoddau digonol i gwrdd â lefelau hysbys o'r galw cyfredol am gymorth ym mhob ardal awdurdod lleol. Nododd fod cyllid brys ar waith tan fis Mawrth 2021, gydag 'ymyl clogwyn' o ran y cyllid ar ôl ar ôl Ebrill 2021, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa argyfwng genedlaethol i wneud iawn am y diffyg cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, cyn darparu model cyllido mwy cadarn wedi hynny.¹⁸⁰

255. Mae Adroddiad y Prif Economegydd yn nodi bod anghydraddoldeb incwm yn is yng Nghymru nag ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, ond mae hyn yn adlewyrchu'r gyfran isel o bobl sy'n ennill incwm uchel ac uchel iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Prif Economegydd yn nodi bod amrywiaeth eang o ymchwil wedi canfod bod y dirwasgiad yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, y rhai sy'n tynnu tua diwedd eu bywydau gweithio, y rhai sydd â lefelau cymwysterau is, y rhai sydd ar gyflogau isel, y rhai sydd mewn cyflogaeth sy'n fwy 'bregus', a'r rhai sydd dan anfantais fel arall (gan gynnwys pobl BAME a grwpiau lleiafrifol eraill). Mae'r adroddiad yn nodi bod yr effaith ar weithwyr sydd â sgiliau is ac sy'n cael tâl is "yn rhannol o ganlyniad i effaith y dirwasgiad ar sectorau penodol, gyda lletygarwch a manwerthu yn dioddef ergyd drom."¹⁸¹

256. Mae'r Prif Economegydd hefyd yn dweud bod effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc, a'r tarfu ar eu haddysg, yn peri risg uchel o "greithio" am oes, gyda'r effaith fwyaf ar gyfleoedd bywyd ac iechyd a llesiant hirdymor y plant mwyaf difreintiedig.¹⁸²

257. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod diffyg cyllid sgiliau a chyflogadwyedd, gyda dyraniadau'r gyllideb yn 'annigonol' i ymateb i'r galw cynyddol a'r farchnad lafur sy'n newid yn gyflym.¹⁸³

258. Er bod Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree wedi croesawu peth o'r gwariant newydd yn y Gyllideb Ddrafft a anelwyd at fynd i'r afael â thlodi,

¹⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymorth i Ferched Cymru

¹⁸¹ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

¹⁸² Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

¹⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ionawr 2021

cytunodd y ddau fod cyfyngiadau i'r hyn y gellid ei gyflawni mewn cynllun byrdymor am flwyddyn yn unig.¹⁸⁴ Dywedodd cynrychiolydd Sefydliad Joseph Rowntree:

“...we recognise that there are gaps in the budget that have been deliberately left due to the nature of the uncertainty surrounding both COVID-19 and Brexit. Whilst this is understandable, the short-term nature of the budget and its inherent uncertainty mean that there is a lack of medium and long-term spending decisions that would address the systemic root causes of poverty. Whilst additional spending in some policy areas is welcome, they don't really represent any real uplift on previous budgets.”¹⁸⁵

259. Cefnogodd tystion y penderfyniad i gyllido prydau ysgol am ddim drwy gydol 2021-22, gan gynnwys gwyliau ysgol, er bod Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan yn cefnogi meini prawf cymhwysedd estynedig ar gyfer mynediad at y cynllun, gan eirioli y dylai'r cynllun fod ar gael i unrhyw blentyn o deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol.¹⁸⁶

260. Awgrymodd y ddau Sefydliad y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cronfeydd heb eu dyrannu i wella cymorth i'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Ymhlith yr awgrymiadau roedd cynyddu cyllid ar gyfer: grantiau tai cymdeithasol; tlodi tanwydd; cymorth a mentora cyflogaeth; cyfrifon dysgu personol; a buddsoddi mewn gliniaduron gyda data ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.¹⁸⁷

261. Fe wnaethant hefyd fynegi pryderon ynghylch y gallu i gyflawni llawer o'r cynlluniau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru, gyda materion yn ymwneud â hygyrchedd cymorth oherwydd cymhlethdod y cynlluniau, ynghyd â diffyg gwybodaeth gyhoeddus am y cymorth sydd ar gael. Roeddent o blaid datblygu system fudd-daliadau gydlynol, gydgysylltiedig, gan nodi:

“...the Welsh Government's budget in 2019-20 spent as much on all these different pots of money—free school meals, council tax reduction schemes, all of those different pots—as the total universal credit and jobseeker's allowance spend in Wales by the Department for Work and Pensions. So, it's a huge amount of money that Welsh Government is

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraffau 5 a 10

¹⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 5

¹⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraffau 51, 55 a 57

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraffau 6, 9 ac 11-12

spending on these schemes, which are not being used as effectively as they probably could be at the moment.”¹⁸⁸

262. Cyfeiriodd y Gweinidog at nifer o gamau a gymerwyd i ymateb i'r rhai sydd mewn cyflogaeth fregus – er enghraifft, cymorth i ddod o hyd i waith, mynd ar drywydd hunangyflogaeth, cyrchu addysg neu hyfforddiant, cymhellion i gyflogwyr gyflogi staff newydd a £6 miliwn o gyllid Cymunedau am Waith a Mwy drwy awdurdodau lleol i hybu cymorth ymgynghorol cyflogaeth arbenigol a mentora dwys.¹⁸⁹

263. Mewn ymateb i farn y Comisiynydd bod dyraniadau'r gyllideb ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd yn annigonol, dywedodd y Gweinidog:

“...I’m very aware, actually, that we need to do more in this area, which is why, through this financial year, we’ve made additional funding—the £40 million package I have in mind—regarding the support for employability that we announced earlier on in the year, and some of that was specifically in relation to apprenticeships. So, I’m keen to explore what more we can do, potentially, through the COVID-related funding in that field between the draft and the final budget, and I’m having some further discussions with Ken Skates in that regard. So, this is, as I say, an area where I recognise that there’s important further work to be done, and I hope to say something at the final budget on that.”¹⁹⁰

264. O ran mesurau i fynd i'r afael â thlodi, tynnodd y Gweinidog sylw at gyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, a chyllid pellach ar gyfer grantiau cymorth tai, grantiau atal digartrefedd, gwasanaethau cynghori, prydau ysgol am ddim a'r rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol.¹⁹¹

265. O ran galwadau rhanddeiliaid am system fudd-daliadau gydgysylltiedig, dywedodd y Gweinidog:

“I think that we’re already undertaking that kind of rationalisation of existing support, and I would point to two things—first of all, the Working Wales approach, which, essentially, is that single door into support for employment and employability, and I think that that meets the kind of ask that you’ve described there. And also, on housing, the

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraffau 33, 35 a 41

¹⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraffau 139 a 141

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 145

¹⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraffau 141-143

housing Minister is working very much on that kind of ‘no wrong door’ approach to support people who are homeless as well. So, I think that what you describe is happening, and perhaps we need to find a way to articulate that more effectively.”¹⁹²

Cynllun Gwella'r Gyllideb ac Asesiad Effaith Integredig Strategol

266. Mae'r naratif ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n ceisio darparu trosolwg o'r dystiolaeth strategol sydd wedi llywio penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru, yn unol â'i blaenoriaethau.¹⁹³ Yn y gorffennol, beirniadwyd yr asesiad effaith am fod yn fformiwlâig, heb newid llawer rhwng blynyddoedd a chanolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol yn hytrach na rhai negyddol.¹⁹⁴

267. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft 2021-22 yn canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19:

- niwed uniongyrchol i iechyd oherwydd y feirws;
- niwed anuniongyrchol i iechyd yn sgil llai o gyflenwad neu alw am ofal iechyd, gan gynnwys y risg y bydd gwelyau gofal critigol yn cael eu llethu gan gleifion COVID-19;
- niwed o ganlyniad i gyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol; a
- niwed economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n cynnwys effeithiau dirwasgiad a cholli addysg.¹⁹⁵

268. Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

“Mae'r pandemig hwn hefyd wedi dylanwadu ar ein gallu i ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth swyddogol lle mae data'n aml yn berthnasol cyn y pandemig, neu ni allwn bob tro fod yn sicr bod unrhyw newidiadau neu wahaniaethau a welwyd wedi cael eu hachosi'n uniongyrchol gan y pandemig. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi croesawu'r wybodaeth a

¹⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 147

¹⁹³ Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22, Atodiad C

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Ionawr 2020, Pennod 5

¹⁹⁵ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 48

gyflwynwyd gan ein partneriaid yn y trydydd sector yn ystod y flwyddyn, a oedd yn tynnu sylw at yr effaith ar grwpiau gwarchodedig.”¹⁹⁶

269. Am yr ail flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Cynllun Gwella'r Gyllideb.¹⁹⁷ Bwriedir i hwn fod yn ddatblygiadol ei natur gan gymryd gorwel pum mlynedd a bod yn rhaglen dreigl o welliannau, yn dangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hymgorffori.

270. Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, argymhellodd y Pwyllgor:

“...bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn cyfnod yr amser a gwmpesir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb i adlewyrchu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thrawsnewid tymor hwy.”¹⁹⁸

271. Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor fod “Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn nogfennaeth cyllidebau'r dyfodol sut y mae'n cymhwyso ei diffiniad ei hun o waith atal i wariant, a'i bod yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni drwy ei strategaethau ataliol”.¹⁹⁹

272. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud ei bod yn “ymrwymedig i gefnogi newid parhaus mewn buddsoddiad tuag at weithgareddau ataliol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb. Byddwn yn ystyried sut y gallwn nodi'n fwy eglur y gwelliannau rydym yn eu gwneud i ddogfennaeth cyllidebau'r dyfodol, gan gynnwys sut y gallwn ddatblygu ein diffiniad o atal”.²⁰⁰

273. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi ei ddiweddarau yn dangos sut y mae wedi (neu sut y bydd yn) adeiladu ar ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y mesurau a gymerwyd yn ystod cylch cyllideb 2021-22. O ystyried y ffocws ar ymateb i'r pandemig, dywed Llywodraeth Cymru:

¹⁹⁶ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 48

¹⁹⁷ Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2020

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Ionawr 2020, Argymhelliad 11

¹⁹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Ionawr 2020, Argymhelliad 18

²⁰⁰ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Chwefror 2020

“...nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â'r holl fesurau a nodwyd gennym yng Nghynllun y Llynedd, gan gynnwys sefydlu Grŵp Trosolwg Gwella'r Gyllideb.”²⁰¹

274. Adroddodd Sefydliad Bevan ar gyfathrebu cyson â gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru:

“I think there are positive things in the budget that show that there has been that engagement in terms of providing money for free school meals, instead of vouchers or hampers, in most local authorities. That's a good example of where the Welsh Government has listened to the evidence. So, there are positive examples, but of course you won't be surprised to hear that we would like to see more being done.”²⁰²

275. Teimlai Sefydliad Bevan y dylid ehangu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ymhellach ar achosion tlodi a sut mae hynny'n effeithio ar wahanol grwpiau ac aelwydydd sydd ag amgylchiadau ac anghenion penodol, gan gyfeirio at waith a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree a allai gynorthwyo Llywodraeth Cymru i wneud hynny.²⁰³

276. Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn falch bod gwella proses y gyllideb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gweinidog Cyllid a'i swyddogion. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi ailadrodd pryderon a fynegwyd pan gyhoeddwyd y Cynllun Gwella'r Gyllideb cyntaf yn 2019, sef nad yw llawer o'r camau gweithredu'n ddigon uchelgeisiol, yn enwedig mewn perthynas ag atal a datgarboneiddio.²⁰⁴

277. Amlinellodd swyddog y Gweinidog ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â swyddfa'r Comisiynydd:

“We have regular engagement throughout the year with the commissioner's office around issues like some of the areas we've taken forward in the budget improvement plan. We're regularly engaging with them on some of the new research that they're doing; they're doing a lot of various pieces of research through the New Economics Foundation. So, there's regular engagement throughout the year, throughout the budget, and that's something we always maintain, and

²⁰¹ Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2020, Cyflwyniad

²⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 14

²⁰³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 21

²⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ionawr 2021

we're always very interested in the commissioner's views on certain budgetary matters.”²⁰⁵

278. Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, sy'n ceisio dadansoddi sut mae pobl mewn gwahanol grwpiau incwm yn elwa ar wariant cyhoeddus. Bwriad hyn yw helpu Llywodraeth Cymru i ddeall a bodloni'r "Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol", y disgwyliwyd iddi gychwyn ar 29 Medi 2020, ond a fydd bellach yn cychwyn ar 31 Mawrth 2021.²⁰⁶

279. Mae'r Comisiynydd wedi croesawu'r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "ystyried y posibilrwydd o ddadansoddi buddiolwyr gwariant cyhoeddus drwy fetrigau eraill ar wahân i incwm, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig". Mae'r Comisiynydd hefyd yn nodi bod y dadansoddiad dosbarthiadol yn nodi nad yw'r "math hwn o ddadansoddiad yn addas iawn ar gyfer cynnwys gwariant ataliol" ac mae'n awgrymu bod angen cwrmpasu cysylltiadau rhwng y dadansoddiad dosbarthiadol hwn a'r agenda atal ymhellach.²⁰⁷

280. Wrth fynd i'r afael â datblygu dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog:

"The analysis does show that devolved public spending in Wales on health, education and social care provision is progressive with respect to income. That's what you would expect to find, and you would hope to find. The pattern and the degree of progressivity does vary across the public services, and that's understandable too because the socioeconomic profile of service users varies, and also some elements of service provision do have those income-related eligibility requirements attached to them."²⁰⁸

281. Mae naratif y gyllideb yn tynnu sylw at £0.6 miliwn ychwanegol i dreblu maint sampl Cymru o'r Arolwg o Adnoddau Teulu, i helpu i ddeall anghydraddoldeb a thlodi a mynd i'r afael â hwy a rhoi gwybodaeth well i fonitro effaith ddosbarthiadol polisïau a gwariant.²⁰⁹

²⁰⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 135

²⁰⁶ Llywodraeth Cymru, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

²⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ionawr 2021

²⁰⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 120

²⁰⁹ Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, tudalen 35

282. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn darparu:

“...a greater level of rich data in order to understand distributional impacts in other areas in future. So, tackling poverty, childcare, local taxation, for example, could all be areas where we expand this work in future.”²¹⁰

Asesu effeithiau ar rywedd a chydaddoldeb

283. Roedd Chwarae Teg o blaid Cynllun Adferiad Ffeministaidd ar gyfer Cymru sy’n datblygu argymhellion ei Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ac yn cynnal cydraddoldeb wrth lunio polisïau a dyrannu adnoddau.²¹¹

284. Nododd Sefydliad Joseph Rowntree y byddai rhai sectorau sydd mewn perygl lle byddai colledion swyddi sylweddol yn debygol, gan gynnwys manwerthu a lletygarwch, yn effeithio’n anghymesur ar fenywod ac unigolion o leiafrifoedd ethnig. Y gobaith oedd y byddai effaith wahanol tlodi ar rai grwpiau, gan gynnwys yr uchod, yn cael ei adlewyrchu ymhellach yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a fyddai’n dod gyda chyllidebau drafft y dyfodol.²¹²

285. Pan ofynnwyd iddi am y cynnydd a wnaed o ran deall a theilwra polisïau yn y Gyllideb Ddrafft i sicrhau bod effaith ar rywedd yn cael ei hystyried yn briodol, cyfeiriodd y Gweinidog at ganlyniadau cynllun peilot y Cyfrif Dysgu Personol, a oedd yn anelu at gynnig ailhyfforddi galwedigaethol i bobl gyflogedig mewn sectorau diwydiant lle mae prinder sgiliau amlwg. Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun peilot wedi arwain at ddyrannu £5.4 miliwn yn ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft hon, a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth symud allan o’r pandemig o ystyried yr argyfwng economaidd sydd wedi digwydd o ganlyniad i’r pandemig. Bydd hyn, dywedodd, yn fodd i bobl wneud yn fawr o’u hincwm a’u potensial i ennill cyflog a dringo’r ysgol yn yr amgylchedd gwaith.²¹³

286. O ran effaith penderfyniadau cyllidebol ar grwpiau BAME, amlygodd y Gweinidog waith sy’n cael ei wneud gan y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip i ddatblygu cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol ar gyfer Cymru, a nododd y

²¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 121

²¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Chwarae Teg

²¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 87

²¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraffau 125-126

byddai'n cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog yn fuan i ddeall yn well pa gyfraniad y gellid ei wneud o safbwynt cyllid.²¹⁴

287. Amlinellodd y Gweinidog hefyd ddyraniadau penodol yn y Gyllideb Ddrafft sy'n adeiladu ar gasgliadau Adroddiad is-grŵp economaidd-gymdeithasol grŵp cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19:

"...you'll see an additional £1.1 million in the draft budget to take forward the actions on the race equality plan, and also investing £100,000 to improve diversity and inclusion in public appointments. I'm allocating £0.6 million to support a range of actions to better reflect black, Asian and minority ethnic history in our cultural sector, and that will seek to help to redress some of the structural inequalities that we have in Welsh society. I'm also increasing the funding for the minority ethnic and Gypsy, Roma, Traveller grant by £1 million. That brings that total for the next financial year to £11 million. I think that's important, because we understand from the research and the evidence that the pandemic is having a particularly negative effect on children from that community, and they've very much been disproportionately affected. So, we're trying to respond within this budget to some of the wider research that we've been doing, so it's not quite the same as the gender budgeting work, but it takes that wider body of research that we have access to and responds to that."²¹⁵

Barn y Pwyllgor

288. Ni fu'r angen i fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu erioed yn fwy difrifol, gyda'r pandemig yn gwaethygu'r heriau mae aelwydydd incwm isel a difreintiedig yn eu wynebu yn barod. Mae asesiad y Prif Economegydd o'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn sgil y dirwasgiad yn frawychus, ac mae'n amlwg bod angen gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a lleihau'r risg o dlodi dwfn a pharhaus.

289. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a'r cyfyngiadau a osodir ar Lywodraeth Cymru yng ngoleuni Adolygiad Gwariant fesul blwyddyn y Deyrnas Unedig, ni chredir bod y mesurau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn cael eu hystyried yn ddigonol ac nid yw rhanddeiliaid o'r farn y byddant yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Mae hyn yn peri pryder neilltuo o ystyried y

²¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 132

²¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 133

dyfodol ansicr sy'n wynebu Cymru, oherwydd y pandemig. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ymrwymiad y Gweinidog i archwilio sut gellir defnyddio cyllid cysylltiedig â COVID-19 heb ei ddyrannu, ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i dargedu cyllid pellach tuag at wella cymorth i'r rhai sy'n byw mewn tldi.

290. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r galwadau gan randdeiliaid i symleiddio a chydgrynhoi budd-daliadau Cymru, a hoffai i Lywodraeth Cymru ystyried sut gall symleiddio a hyrwyddo'r cynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael yn well.

291. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig wedi atal Llywodraeth Cymru rhag datblygu Cynllun Gwella'r Cyllideb gymaint ag y bwriadwyd, ond mae'n croesawu'r gwaith a wnaed i ddatblygu dadansoddiad dosbarthiadol gwariant cyhoeddus datganoledig a bwriad Llywodraeth Cymru i archwilio'r syniad o ddadansoddi buddiolwyr gwariant cyhoeddus drwy fetrigau ac eithrio incwm, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig. Croesewir hefyd y buddsoddiad ychwanegol yn y gyllideb hon i gynyddu'r arolwg Adnoddau Teulu. Bydd y dadansoddiad hwn yn bwysig er mwyn deall effaith cyllidebau'r dyfodol, a dylid parhau i'w ddatblygu fel blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, yn enwedig gan fod unigolion o grwpiau lleiafrifol yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan y dirwasgiad economaidd a'r adferiad economaidd sy'n gysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y Comisiynydd ynghylch yr awgrym nad yw gwariant ataliol yn addas iawn ar gyfer y math hwn o ddadansoddiad, ac mae'n cytuno bod angen ymchwilio ymhellach i hyn.

292. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn rhanddeiliaid ynghylch yr angen i ystyried achosion tldi a sut mae'r achosion hynny'n effeithio ar wahanol grwpiau ac anghenion.

293. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod canlyniadau cynllun peilot cyllidebu rhywedd y Cyfrif Dysgu Personol a'i ddylanwad ar ddyraniad eleni. Fodd bynnag, nid yw un cynllun peilot mewn dwy flynedd yn ddigonol, ac ychydig iawn o dystiolaeth y gall y Pwyllgor ei gweld o ddull cyllidebu rhywedd ehangach yn dod i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei alwadau blaenorol i ddatblygu dull cyllidebu sy'n sensitif i rywedd ac i brif ffrydio ac ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ar draws y gyllideb gyfan.²¹⁶

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r modd o gyfathrebu ynghylch cynlluniau cymorth ariannol ac yn adolygu'r prosesau ymgeisio i hwyluso mynediad at gymorth, yn enwedig i

²¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020 - 21 Ionawr 2020

ymgeiswyr bregus, gan ystyried gweithredu dull ‘dim dewis anghywir’ ar gyfer ymgeiswyr.

Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall wella'r berthynas rhwng y dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru a'r agenda atal.

Argymhelliad 30. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol yn cael eu cryfhau i egluro sut mae achosion tlodi ac effeithiau amrywiol ar wahanol grwpiau ac anghenion yn dylanwadu ar ddyraniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 31. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn cymryd agwedd fwy sensitif i rywedd tuag at ei chyllidebau yn y dyfodol ac yn dangos sut mae penderfyniadau gwariant a pholisi yn cael eu llywio gan yr effaith ar rywedd a grwpiau eraill, yn enwedig o gofio'r dystiolaeth y bydd effaith economaidd y pandemig yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau.

9. Brexit a'r cyfnod pontio â'r Undeb Ewropeaidd

Gadael yr Undeb Ewropeaidd

294. Yn adroddiad y Prif Economegydd nodwyd y sectorau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan doriad aflonyddgar oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd:

“Mae'r rhan fwyaf o ymchwil, ond nid y cyfan, wedi dangos y bydd gadael y farchnad sengl yn difrodi ardaloedd fel Cymru yn anghymesur gan ein bod yn arbenigo mewn gweithgynhyrchu a'n bod yn allforio llawer i'r UE.”²¹⁷

295. Nododd Conffederasiwn GIG Cymru ei bryderon ynghylch effaith y cytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd:

“There will be increased costs. We have serious concerns about the workforce...it's more likely to be the social care workforce that will be more affected than the healthcare workforce due to the salary thresholds related to the agreement.”²¹⁸

296. Cydnabu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru waith Grŵp Cyngori'r Undeb Ewropeaidd a chroesawodd yr ymchwil a gomisiynwyd ganddo ar effeithiau cytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn y cyhoeddiad am gytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd, nododd y Gymdeithas fod pryderon ynghylch y gostyngiad o 6 y cant yn allforion Cymru a ragwelwyd o gytundeb masnach 'tenau' wedi cael eu lliniaru.²¹⁹

297. Cyhoeddwyd y naratif ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru²²⁰ ar 21 Rhagfyr 2020, cyn bod y cytundeb â'r Undeb Ewropeaidd yn hysbys. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi bellach yn deall y materion a'r heriau yn well, ac:

²¹⁷ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd 2020

²¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 203

²¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 201

²²⁰ Llywodraeth Cymru, Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21, Rhagfyr 2020

“...I might be looking to make some further allocations now between the draft and the final budget in respect of these particular immediate challenges that we’re facing.”²²¹

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - Rhagolygon Economaidd

298. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ansicrwydd mawr ynghylch y rhagolygon economaidd,²²² a arweiniodd at amrywiaeth o senarios yn rhagolygon y Deyrnas Unedig a Chymru.²²³ Ers rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y Deyrnas Unedig ddiwedd mis Tachwedd, mae’r rhagolygon wedi newid oherwydd straen mwy ffyrnig o COVID-19 a’r cytundeb masnach rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd.

299. Roedd rhagolygon blaenorol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ers refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar gytundeb masnach rydd ‘ar gyfartaledd’ gyda’r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wrth y Pwyllgor:

“What that did over the long term was reduce the level of output by about 4 per cent relative to our pre-referendum forecast. Had we left the EU without a deal, and basically with no free trade agreement at all, that would have further reduced the level of output by about 2 per cent over the longer term.”²²⁴

300. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod arbenigwyr annibynnol yn amcangyfrif bod canlyniad hirdymor y cytundeb yn ‘weddol agos’ at y ragdybiaeth o 4 y cant, gan olygu nad yw’r gostyngiad ychwanegol o 2 y cant wedi digwydd.²²⁵

301. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd rywfaint o aflonyddwch byrdymor ynghylch ffrithiannau masnach, y bydd angen iddo eu hasesu yng nghyd-destun ei ragolygon, gan gynnwys a yw unrhyw rai yn debygol o barhau ar ryw ffurf yn y tymor hwy.²²⁶

302. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei fod yn adolygu manylion y cytundeb i asesu cywirdeb ei amcangyfrif o’r gostyngiad hirdymor o 4 y cant

²²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 181

²²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 23

²²³ Rhagolwg trethi Cymru, Rhagfyr 2020

²²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 30

²²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 30

²²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 34

mewn allbwn. Y dadansoddiad cychwynnol yw nad oedd yn disgwyl i'r canlyniadau newid ei amcangyfrif yn sylweddol, er bod trefniadau maes gwasanaeth y mae'n rhaid cytuno arnynt o hyd. Trefniadau ynghylch y sector gwasanaethau ariannol sy'n cael yr effaith bosibl fwyaf.²²⁷

Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig

303. Cyfeiriwyd yn naratif y Gyllideb Ddrafft at y diffyg yng nghyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddisodli cyllid datblygu amaethyddol a gwledig yr Undeb Ewropeaidd o'i gymharu â'r hyn a ddisgwylid:

“Hyd yn oed pan ddarparwyd cyllid inni yn yr Adolygiad o Wariant, mae'r cyllid amaeth newydd a ddarperir gan Lywodraeth y DU £137m yn llai nag y byddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22. Bydd hyn yn cael effaith ar ein cymunedau gwledig a'n hamgylchedd.”²²⁸

304. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r holl arian a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o ran taliadau uniongyrchol yn cael ei drosglwyddo i ffermwyr.²²⁹

305. Nododd y Gweinidog hefyd fod y diffyg yn rhannol gysylltiedig â'r trosglwyddo o golofn i golofn:

“The shortfall in funding partly relates to the £42 million pillar transfer. Now, our decision in December 2019 to make that 15 per cent per transfer for rural development was on the basis that the UK Government would then provide the full replacement funding to us, and we haven't had that transfer of £42 million available to us in the next budget. We think that was wrongly withheld from us.”²³⁰

306. Ni wnaeth y Gweinidog awgrymu y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud iawn am y gostyngiad hwn yn y Gyllideb Derfynol drwy wneud dyraniadau o gronfeydd presennol Llywodraeth Cymru, ond nododd y bydd yn parhau i bwyso'n gryf am drosglwyddiad o £42 miliwn yn ymwneud â throsglwyddo o golofn i golofn na dderbyniwyd.²³¹

307. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

²²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 31

²²⁸ Llywodraeth Cymru, Naratif Cyllideb Ddrafft 2021-22, Rhagfyr 2020

²²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 183

²³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 184

²³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 189

“...we understand from Her Majesty’s Treasury officials...that the Chief Secretary is minded not to agree our request for the return of the £42 million. We haven’t had that notification formally; we’d expect that through the UK supplementary estimates process, which we’re likely to have information on very shortly...As soon as that’s confirmed, Chair, obviously I’m keen to clarify that for committee, but also, then, set out what our response would be to that.”²³²

308. Ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Pwyllgor ar fater cyllid ar gyfer y sector Amaeth ym mis Rhagfyr 2020. Nododd y byddai cyllid a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad o Wariant yn cael ei ategu gan gyllid o raglenni’r Undeb Ewropeaidd sy’n parhau.²³³

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

309. Tynnwyd sylw hefyd yn naratif y Gyllideb Ddrafft at y gostyngiad tebygol yn y cyllid a dderbynnir fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig:

“Bydd cynnig Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y DU yn werth dim ond £220m y flwyddyn nesaf ar gyfer y DU gyfan – gostyngiad sylweddol o’i gymharu â’r £375m y flwyddyn y mae Cymru yn unig yn ei gael ar hyn o bryd drwy’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.”²³⁴

310. Codwyd y mater hwn yn nhystiolaeth Undeb y Brifysgol a’r Coleg, a feirniadodd Lywodraeth y Deyrnas Unedig am ‘wrthod yn barhaus’ darparu manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin olynol na rhoi sicrwydd y bydd Cymru’n derbyn yr un faint o arian ag y byddai’n disgwyl ei gael pe bai’r Deyrnas Unedig wedi aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd, gan nodi hefyd y straen posibl y gallai Bil y Farchnad Fewnol ei roi ar allu Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer addysg uwch.²³⁵

311. Nodwyd yn nhystiolaeth Conffederasiwn GIG Cymru fod angen eglurder o ran y strwythurau a’r trefniadau llywodraethu a fydd yn disodli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, gan nodi bod y GIG angen eglurder ynghylch yr arian y

²³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 149

²³³ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 7 Rhagfyr 2020

²³⁴ Llywodraeth Cymru, Naratif Gyllideb Ddrafft 2021-22, Rhagfyr 2020

²³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb y Brifysgol a’r Coleg

bydd Cymru yn ei dderbyn, sut bydd yn cael ei dargedu a sut bydd yn cael ei weinyddu.²³⁶

312. Yn yr un modd, nodwyd yn nhystiolaeth Chwarae Teg fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, a ddarperir drwy arian newydd yr Undeb Ewropeaidd a ddarperir trwy un gronfa aml-flynyddol i Gymru, a weinyddir yng Nghymru.²³⁷

313. Amlinellodd FSB Cymru bryderon ynghylch argaeledd cyllid ar gyfer Busnes Cymru o 2022-23 ymlaen o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig:

“...in the process of the EU funding coming to an end and the role of a shared prosperity fund, the role of Business Wales and the funding of Business Wales is something that we’re worried about, particularly from 2022-23...”²³⁸

314. Amlygodd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod Cymru wedi bod yn derbyn cyllid sylweddol gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer prosiectau seilwaith, felly mae’n awyddus i gael cadarnhad y bydd ffrydiau cyllido newydd ar gael:

“...many of our tourism projects have been funded by European Union money, the infrastructure projects particularly, which maybe, if they’re not specific, do have a real bearing on visitor movements and the ability for destinations to receive visitors. So, we’re really quite concerned about that, and that needs to be thought of.”²³⁹

315. Nododd y Gweinidog ddiffyg manylion ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig:

“We understand that, potentially, the shared prosperity fund, or the levelling-up fund, will be potentially primarily a capital fund, so there might be additional funding from those funds coming to Wales, but as yet we don’t have an indication.”²⁴⁰

316. Yn ei adroddiad ar ail gyllideb atodol 2020-21, argymhellodd y Pwyllgor:

²³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Conffederasiwn GIG Cymru

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

²³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 165

²³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2021, paragraff 218

²⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 100

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar frys i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i gael manylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyhoeddi'r manylion hynny.²⁴¹

317. Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Drwy gydol y broses o ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl gadael yr UE, rydym wedi cynnal deialog rheolaidd â'r gweinidogion cyfatebol mewn llywodraethau datganoledig eraill ac wedi gweithio gyda'n gilydd ar ddulliau gweithredu cyffredin er mwyn codi pwysigrwydd y mater hwn yn gyhoeddus ac yn wleidyddol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig eraill ac yn pwysu am ymgysylltu ystyrlon â Llywodraeth y DU, yn cynnwys sut y caiff cyllid yn y dyfodol ei ddosbarthu a rôl ac ymwneud Llywodraeth Cymru. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 22 Rhagfyr i ailbwysleisio'r pwyntiau hyn a phwysu am gyfarfod brys â'r Ysgrifennydd Cymunedau a'r Ysgrifennydd Pensiynau fel y gallwn fwrw ymlaen â hyn ymhell cyn cyhoeddi fframwaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y gwanwyn.”²⁴²

Barn y Pwyllgor

318. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Gyllideb Ddrafft wedi ei gosod cyn sefydlu'r cytundeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n nodi dull y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o gynhyrchu gwahanol ragolygon economaidd i adlewyrchu amrywiaeth o senarios yn ei ragolygon ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru.

319. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd yn ofynnol i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gyhoeddi ragolygon treth wedi eu diweddarau ar gyfer Cymru ar 2 Mawrth, ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, a ragolygon economaidd a chyllidol y Deyrnas Unedig wedi eu diweddarau, ynghyd â ragolygon datganoledig a gwariant ar 3 Mawrth, ochr yn ochr â chyllideb y Deyrnas Unedig.

²⁴¹ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21

²⁴² Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21

Mae'n siomedig na fydd y rhagolygon hyn ar gael mewn pryd iddynt gael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Derfynol.

320. Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n bryderus iawn am y dystiolaeth bod cyllid trosglwyddo o golofn i golofn a'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth a'r economi wledig ehangach yn debygol o fod ymhell islaw'r lefel sydd ar gael yn 2020-21.

321. Mae'r Pwyllgor wedi nodi ei bryder yn rheolaidd ynghylch y diffyg eglurder a thryloywder o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, ac mae'r pryderon hyn yn parhau. Mae tystiolaeth wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o randdeiliaid ledled Cymru yn teimlo'r pryderon hyn. Mae'n siomedig nad yw'r manylion ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig wedi eu cwblhau ar hyn o bryd.

322. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gadarnhau Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, ac o'r farn ei bod yn siomedig nad yw'r ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwella.

Argymhelliad 32. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid yn darparu diweddariad byr ar effaith rhagolygon diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a fydd yn cael eu cyhoeddi gyda Chyllideb y Deyrnas Unedig yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 9 Mawrth.

Argymhelliad 33. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar gyllid sy'n ymwneud â throsglwyddo o golofn i golofn, ac yn cynnal asesiad effaith ar yr effeithiau y bydd gostyngiad yn y cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth yn ei chael ar ffermio a'r economi wledig yn ehangach.

Argymhelliad 34. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, ac mae'n argymell bod diweddariad yn cael ei ddarparu ar sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol a pha rôl fydd gan Lywodraeth Cymru yn y broses.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
8 Ionawr 2021	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru Margaret Davies, Dirprwy Cyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru Anna Adams, Dirprwy Cyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru
13 Ionawr 2021	Richard Hughes, Cadeirydd, Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Andy King, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
13 Ionawr 2021	Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Dilwyn Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Confederasiwn GIG Cymru
13 Ionawr 2021	Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru) Guto Ifan, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru) David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
15 Ionawr 2021	Dr Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan Gemma Schwendel, Uwch-ddadansoddwr, Sefydliad Joseph Rowntree
15 Ionawr 2021	Andrew Campbell, Cadeirydd, Cyngorhair Twristiaeth Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Ian Price, Cyfarwyddwr, CBI Cymru Dr Llŷr ap Gareth, Uwch Gynghorydd Polisi, FSB Cymru
20 Ionawr 2021	Rebecca Evans AS – Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni’r Gyllideb, Llywodraeth Cymru Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#)

Cyfeirnod	Sefydliad
WGDB_21-22 01	Sefydliad y Peirianwyr Sifil
WGDB_21-22 02	Hafal
WGDB_21-22 03	Consortiwm Manwerthu Cymru
WGDB_21-22 04	Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol Cymru
WGDB_21-22 05	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
WGDB_21-22 06	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
WGDB_21-22 07	Oxfam Cymru
WGDB_21-22 08	Coleg Brenhinol y Meddygon
WGDB_21-22 09	Undeb Prifysgol a Choleg Cymru
WGDB_21-22 10	Cyswllt Amgylchedd Cymru
WGDB_21-22 11	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WGDB_21-22 12	Unigolyn
WGDB_21-22 13	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
WGDB_21-22 14	Chwarae Teg
WGDB_21-22 15	Cymorth i Ferched Cymru
WGDB_21-22 16	Colegau Cymru
WGDB_21-22 17	Canolfan Cydweithredol Cymru
WGDB_21-22 18	WWF Cymru
WGDB_21-22 19	Prifysgolion Cymru
WGDB_21-22 20	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
WGDB_21-22 21	Confederasiwn GIG Cymru
WGDB_21-22 22	Sefydliad Bevan
WGDB_21-22 23	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
WGDB_21-22 24	Dadansoddi Cyllid Cymru
WGDB_21-22 25	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
WGDB_21-22 26	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	Ionawr 2021